

# RHAGLEN L|E|A|D|E|R

## GWERTHUSIAD CANOL TYMOR

G · R · Ŵ · P
GWEITHREDU LLEOL
BRO MORGANNWG

Adroddiad terfynol gan Ash Futures

Gorffennaf 2019

| | | |
|---|---|---|
| | Crynodeb Gweithredol | 3 |
| 1 | Cyflwyniad | 6 |
| 2 | Strategaeth Datblygu Lleol Bro Morgannwg | 13 |
| 3 | Cyd-destun cymdeithasol-economaidd sy'n newid | 22 |
| 4 | Cyflawni'r Strategaeth Datblygu Lleol - effeithiolrwydd | 29 |
| 5 | Cynnydd tuag at Dargedau Gwariant ac Allbwn y SDLl | 33 |
| 6 | Model a strwythur cyflawni – effeithlonrwydd | 38 |
| 7 | Cwrdd ag amcanion y prosiect – effaith | 44 |
| 8 | Argymhellion | 48 |
| | Atodiad 1 | 49 |



**Ash Futures Ltd**

**Awdur arweiniol:** Shane Vallance

**Cyfranwyr eraill:** Jo Talbot, Angharad Butler, Simon Hooton



Rydym yn ddiolchgar am help staff Cymunedau Gwledig Creadigol gyda'r trefniadau ar gyfer y gweithgareddau gwerthuso hyn ac am ddarparu gwybodaeth a data ar gyfer y gwerthusiad. Rydym hefyd yn ddiolchgar am amser, sylwadau a barn y busnesau, rhanddeiliaid ac aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol sydd wedi cyfrannu at y gwerthusiad trwy arolygon, cyfweliadau a grwpiau ffocws.

Mae LEADER yn ddull datblygu cymunedol mewn ardaloedd gwledig sy'n seiliedig ar egwyddorion o weithgareddau sy'n cael eu harwain yn lleol, arloesol ac integredig, wedi'u gosod o fewn Strategaeth Datblygu Lleol (SDLl). Mae SDLl Bro Morgannwg ar gyfer 2014-2020 yn cael ei darparu trwy'r tîm Cymunedau Gwledig Creadigol, a'r rheoli gan Grŵp Gweithredu Lleol Bro Morgannwg. Mae'r tîm Cymunedau Gwledig Creadigol oll wedi'u cyflogi gan Gyngor Bro Morgannwg, gan weithio'n agos gyda'r Cyngor and yn gweithredu hyd-braich.

Derbyniodd Cymunedau Gwledig Creadigol gyllid trwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 (sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig), Llywodraeth Cymru a Chyngor Bro Morgannwg. Mae Cymunedau Gwledig Creadigol hefyd yn cynnal prosiectau sy'n cyd-fynd â'r amcanion a nodwyd yn y SDLl, ond sydd o bryd i'w gilydd yn cael eu hariannu gan gyrff allanol[1].

Gwelodd y gwerthusiad canol tymor ar gyflawni SDLl Bro Morgannwg fod y Grŵp Gweithredu Lleol a Chymunedau Gwledig Creadigol wedi gwneud cynnydd sylweddol yn cyfrannu tuag at amcanion y SDLl mewn nifer o feysydd. Mae'r cyraeddiadau allweddol yn cynnwys:

- Mae'r rhaglen wedi cael ei rheoli'n dda gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol ar ran y Grŵp Gweithredu Lleol. Gyda gwerthusiadau blaenorol, roedd yr adborth gan bartneriaid y prosiect a rhanddeiliaid yn nodi fod gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol enw da ac yn gyrru ac yn symbylu llawer o'r gweithgareddau yn ardal wledig y Fro.
- Mae enghreifftiau da o weithgareddau arloesol wedi cael eu datblygu a'u cefnogi trwy'r rhaglen gyfredol. Mae'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi bod yn agored i gymryd ambell risg gyda rhai o'r gweithgareddau a ariannwyd.
- Mae cyfran helaeth o gyllid y rhaglen wedi'i ddyrannu, ac mae llawer o hyder y bydd wedi'i ymrwymo a'i wario'n llawn erbyn i'r rhaglen ddod i ben. Mae'r rhaglen wedi cael ei rheoli'n fanwl gan dîm rheoli rhaglen Cymunedau Gwledig Creadigol, a'i monitro yn erbyn y proffil disgwyliedig.
- Disgwylir i'r rhaglen gwrdd â Dangosyddion y Rhaglen yn llwyr, a mynd y tu hwynt iddynt gan gryn dipyn, erbyn i'r rhaglen ddod i ben (er ein bod yn cwestiynu os yw'r dangosyddion o anghenraid yn dweud cymaint â hynny).

**Drwyddi draw, mae'r rhaglen LEADER hon wedi'i rheoli'n dda, yn effeithiol iawn ac iddi enw da.**

Mae gan Grŵp Gweithredu Cymunedol Bro Morgannwg a Chymunedau Gwledig Creadigol yn awr gyfle i fanteisio ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma, trwy ganolbwyntio ar rai gweithgareddau allweddol am weddill cyfnod y rhaglen. Mae rhai o'r rhain yn dilyn ymlaen o'n canfyddiadau yn y gwerthusiad canol tymor hwn.

Yn benodol, teimlwn fod angen ystyried rhai materion penodol yn cynnwys:

- Ehangu ymgysylltu cymunedol ar gyflawni'r SDLl;
- Parhau i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd tymor hir y prosiectau. Gall hyn olygu parhau i gefnogi gweithgareddau sydd eisoes wedi'u sefydlu, yn hytrach na chwilio am fentrau newydd. Gall hyn olygu parhau â'r gefnogaeth (sydd ddim yn gefnogaeth ariannol) trwy dîm Cymunedau Gwledig Creadigol hyd nes y bydd y mudiadau/gweithgareddau hynny mewn gwell sefyllfa o ran cynaliadwyedd tymor hir;

[1] *Er enghraifft, gan y Waterloo Foundation (Bwrsariaeth Ysbrydoli'r Fro) a Chronfa Treftadaeth y Loteri (Cymunedau'r Arfordir)*

- Wrth barhau i gynnig cefnogaeth i brosiectau, rhaid i Gymunedau Gwledig Creadigol ystyried creu gallu yn y gymuned i gynnal gweithgareddau y tu hwnt i oes cyllid LEADER;
- Dathlu mwy ar lwyddiant rhaglen LEADER (a rhaglenni blaenorol). Gall hyn olygu defnyddio aelodau'r Grŵp Gweithredu Cymunedol fel eiriolwyr dros y rhaglen, a chysylltu'r Grŵp yn well â phrosiectau sydd wedi cael cefnogaeth i'w galluogi i ddeall effaith y gefnogaeth yn well.

Mae'r gwerthusiad wedi canolbwyntio ar nifer o gwestiynau gwerthuso penodol. Mae'r prif ganfyddiadau ac argymhellion a ddaeth yn eu sgil yn cynnwys:

- Y gwerth cadarnhaol a gafwyd trwy'r dull peilot/dichonolrwydd sydd wedi bod yn ffocws craidd i'r rhaglen. Tra bo nifer o'r rhanddeiliaid – yn cynnwys aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol ei hun – yn teimlo fod y rhaglen wedi'i chyfyngu gan anallu i roi cymorth ariannol uniongyrchol i fusnesau ar ffurf grantiau, teimlwn fod digon o enghreifftiau da o weithgareddau sydd wedi cael eu datblygu ac sydd ddim o anghenraid yn ddibynnol ar gymorth ariannol sylweddol. Mae cymorth ariannol bach trwy LEADER – a'i gefnogi trwy gymorth gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol – wedi galluogi datblygu cysyniadau prosiectau. Mae dadl fod hyn wedi arwain ar at agweddau mwy arloesol.
- Mae dadl arall fod y risg i gynaliadwyedd tymor hir yn fwy yn y model cymorth hwn. Mae mwy o bwyslais yn sicr ar allu'r tîm Cymunedau Gwledig Creadigol i roi'r symbyliad ar gyfer gweithgareddau (hyd yn oed os yn gweithredu ar syniadau sy'n cael eu datblygu o fewn y gymuned), sy'n codi cwestiwn ynghylch gallu o fewn gymuned a chynaliadwyedd tymor hir rhai o'r gweithgareddau. Serch hynny, ein barn wrthrychol ni yw nad yw hyn yn wir am yr holl brosiectau.
- Serch hynny, mae'r cyfyngiad ar allu'r rhaglen i gynnig cymorth ariannol yn uniongyrchol i fusnesau wedi golygu mai ychydig iawn o fusnesau sydd wedi gallu gweithredu fel corff arweiniol o fewn y rhaglen gyfredol. Mae busnesau wedi tueddu i gael perthynas 'anuniongyrchol' yn hytrach nag 'uniongyrchol' gyda'r rhaglen. Mae hyn yn codi cwestiynau am effaith LEADER ar yr economi lleol, gan mai busnesau'n bennaf sy'n gyrru'r economi. Mae'r model cymorth gwahanol yn arwain at gymorth mwy anuniongyrchol.
- Gallai Cymunedau Gwledig Creadigol ddangos yn well sut mae gweithgareddau prosiectau'n cyfrannu at themâu trawsbynciol y SDLl, a rhoi rhagor o ystyriaeth iddynt wrth ddatblygu prosiectau;
- Mae rheolaeth dda wedi bod o gyflawni'r SDLl trwy dîm Cymunedau Gwledig Cynaliadwy. Yr adborth rydym wedi'i gael yw fod y tîm yn allweddol i gyflawni'r SDLl a chydrannau'r prosiectau. Mae'r tîm wir yn cysylltu â'r gymuned, yn broffesiynol ac arloesol yn eu dulliau, ac yn agored i ddatblygu atebion i broblemau sy'n codi.
- Nid yw'n glir faint o'r SDLl sy'n cael ei defnyddio fel dogfen arweiniol ar gyfer gweithgaredd o fewn y rhaglen. Tra bo tîm Cymunedau Gwledig Creadigol wedi bod yn ymwybodol o rai 'bylchau mewn darpariaeth' yn erbyn themâu'r SDLl, rydym wedi gweld nad oes ymwybyddiaeth mawr o amcanion a themâu'r SDLl – hyd yn oed yn y Grŵp Gweithredu Lleol ei hun. Rydym yn cwestiynu os yw'r 'pwyslais lleol' yr oedd y SDLl i fod i'w gynnig wedi cael ei deneuo yn sgil hynny. Mae hyn wedi'i bwysleisio trwy ganoli mwy ar gefnogaeth arall i'r rhaglen, e.e. Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig o fewn Llywodraeth Cymru.
- Mae'r gweithgareddau wedi canolbwyntio mwy ar rai o flaenoriaethau'r SDLl (neu themâu Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru) nac eraill. Mae hyn yn ymddangos o ganlyniad i fod rhai mentrau ehangach heb ddatblygu yn ôl y disgwyl, neu yn sicr yn arafach. Un enghraifft yw agenda Dinas Caerdydd – bu'n anodd datblygu gweithgareddau sy'n ceisio manteisio ar gyfleoedd sy'n codi o Fargen Dinas Caerdydd gan ei bod yn raglen fuddsoddi 20 mlynedd

sydd eto i gychwyn yn llawn. Enghraifft arall yw'r thema Ynni Gwyrdd Cymunedol – mae'r newid i'r cymhelliant ynni adnewyddol wedi cael effaith andwyol ar gynnydd ar y thema honno[2].

- Mae blaenoriaethau'r SDLl yn parhau'n ddilys – nid yw amgylchiadau cymdeithasol economaidd na newid polisi yn dynodi angen am newid sylfaenol.

Gwelodd y gwerthusiad fod egwyddorion LEADER yn cael eu diwallu trwy Grŵp Gweithredu Lleol Bro Morgannwg, a gwaith Cymunedau Gwledig Creadigol, gyda cyfle i ddatblygu rhai ymhellach:

- Sicrhau gweithgaredd integredig ac ar draws prosiectau: mae nifer o agweddau i'r prosiectau yn nhermau fod rhai yn cynnwys nifer o gymunedau (e.e. mapio cymunedol), rhai â nifer o gamau datblygu (e.e. Gŵyl y Môr) ac mewn rhai achosion, mae un prosiect wedi arwain at un arall (e.e. y Rhwydwaith Crefftau a'r Ŵyl Grefftau). Mae cyswllt eisoes rhwng prosiectau ac integreiddio rhwng rhai. Credwn fod cyfle i barhau i adeiladu ar hyn trwy ymestyn rhwng prosiectau a chael gwerth ychwanegol i'r SDLl. Mae'r tîm Cymunedau Gwledig Creadigol wedi bod wrthi yn dynodi cyfleoedd lle gall prosiectau (o'r rhaglen gyfredol a'r un flaenorol) gysylltu, a byddem yn annog parhau â hyn, i wneud y mwyaf o gyfleoedd i integreiddio;
- Cydweithio: Mae rhywfaint o gynnydd wedi bod gydag elfen cydweithio'r rhaglen. Serch hynny, nid yw'r cyfleoedd i gydweithio ag ardaloedd LEADER eraill yng Nghymru wedi datblygu yn ôl y disgwyl – yn rhannol o ganlyniad i lai o ysgogiad gan Rwydwaith Wledig Cymru – ac mae gobaith y bydd rhagor o gyfleoedd yn amlygu dros weddill y rhaglen;
- Ymgysylltu â'r gymuned ehangach: Mae tystiolaeth helaeth o ymgysylltu â'r gymuned o fewn y rhaglenni presennol a blaenorol. Mae hyn wedi bod yn gryfder gwirioneddol i'r rhaglen dros y ddegawd ddiwethaf. Cafodd cyfathrebu ac annog ymgysylltu bwyslais allweddol fel rhan o'r thema 'bywiocau' yng nghyfnod cynnar y rhaglen (a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad). Serch hynny, mae ymgysylltu cymunedol o fewn y rhaglen wedi dibynnu ar allu'r tîm Cymunedau Gwledig Creadigol i gysylltu â'r gymuned, ac ysgogiad a gallu unigolion allweddol o fewn y gymuned. Mae cwestiwn – er gwaethaf cyfathrebu helaeth ac wedi'i dargedu – os yw'r rhaglen wir wedi gallu cyrraedd unigolion a chymunedau anodd eu cyrraedd. Er gwaethaf ymdrechion y tîm Cymunedau Gwledig Creadigol, mae cwestiwn am ddealltwriaeth y gymuned ehangach am y rhaglen. Efallai fod hyn yn rhywbeth fydd wastad yn anodd ei gyflawni – mae'r rhaglen yn ei hanfod yn cael ei harwain gan y galw;
- Gweithredu trwy Grŵp Gweithredu Lleol: Mae gan Grŵp Gweithredu Cymunedol Bo Morgannwg 22 aelod ac mae'n rhan o'r penderfyniadau ar brosiectau, yn derbyn adroddiadau ariannol ac allbynnau rheolaidd, ac yn gwneud penderfynu i hwyluso cyflawni'r SDLl. Mae'r gwerthusiad hwn wedi gweld diddordeb aelodau'r Grŵp Gweithredu Cymunedol yn lleihau yn ystod y rhaglen. Gyda'r gwerthusiad canol tymor hwn (a'r adroddiad gwaddol sy'n cyd-fynd ag ef) mae cyfle i ystyried a dysgu o'r profiad hyd yma, cyfle o ddeall effaith y gweithgareddau a ariannir yn well, a chanolbwyntio ar faterion pwysig fel cynyddu gallu ar gyfer gweddill y rhaglen. Efallai y bydd rôl bwysig yn dathlu llwyddiant y rhaglenni a rhoi mwy o rôl fel eiriolwyr i'r aelodau.

[2] *Er enghraifft, cafwyd gostyngiad yn nifer y gosodiadau Carbon Isel yn ardal cyngor Bro Morgannwg rhwng 2016 a 2017 ar ôl gweld twf sylweddol yn y blynyddoedd blaenorol (Cynhyrchu Ynni Carbon Isel yn ôl Awdurdod Lleol a Thechnoleg – StatsCymru)*

## 1.1 LEADER a Strategaeth Datblygu Lleol Bro Morgannwg

Mae LEADER[3] yn ddull datblygu cymunedol mewn ardaloedd gwledig. Bellach yn ei chweched cyfnod ers ei gyflwyno i raglenni Cyllid Ewropeaidd yn 1992, mae'n seiliedig ar saith egwyddor craidd:

- Mae'n ddull seiliedig ar ardal, wedi'i osod mewn strategaeth datblygu lleol
- Mae'n datblygu o'r gwaelod i fyny o ran strategaeth a chyflawni
- Mae'n tynnu pobl leol at ei gilydd mewn partneriaeth gyhoeddus/preifat/cymunedol i reoli cyflawni – y Grŵp Gweithredu Lleol
- Mae'n ceisio sicrhau gweithgaredd integredig ac aml-sector
- Mae'n ceisio bod yn arloesol ar lefel leol
- Mae hefyd yn ceisio cydweithio ag ardaloedd LEADER eraill
- Ac mae'n ceisio datblygu rhwydweithiau lleol ac annog rhwydweithio

Cafodd Strategaeth Datblygu Lleol (SDLl) Bro Morgannwg, sy'n amlinellu strategaeth a dull LEADER ar gyfer y Fro wledig ar gyfer cyfnod cyllid strwythurol 2014 – 2020 yr UE ei llunio a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w chymeradwyo yn 2014. Nid dyma'r tro cyntaf i raglen datblygu gwledig gael ei darparu yn y Fro wledig. Cafodd y rhaglen gyntaf ei darparu rhwng 2004 a 2007. Darparwyd cyllid refeniw gan Gweithredu dros Gymunedau Gwledig ar gyfer pedair thema. Roedd hyn yn cefnogi prosiectau cymunedol bychain. Darparwyd cyllid cyfalaf trwy Erthygl 33 (yr erthygl perthnasol i LEADER ar y pryd).

I ddilyn hyn, cafwyd rhaglen rhwng 2007 a 2014, oedd i bob pwrpas wedi'i rhannu'n ddau ran. Rhwng 2008 a 2011 cafodd y gweithgareddau eu harwain gan Gynllun Busnes 1 y Cynllun Datblygu Gwledig. Rhwng 2011 a 2014, cafodd y gweithgareddau eu harwain gan amcanion/ blaenoriaethau cynllun Busnes 2. Mae hyn i'w weld yn y diagram dros y dudalen.

Cymunedau Gwledig Creadigol sy'n cynnig cefnogaeth i weithgareddau prosiect LEADER yn y Fro wledig. Caiff ei reoli a'i hwyluso gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol, tîm o 8 o staff (er bod lefelau staffio wedi newid dros amser ac mae'n cynrychioli cyfuniad o swyddi llawn a rhan amser) sy'n darparu rhaglen LEADER yn y Fro wledig ar ran Grŵp Gweithredu Lleol Bro Morgannwg. Cyngor Bro Morgannwg yw'r corff gweinyddol ac atebol ar gyfer rhaglen LEADER. Cymunedau Gwledig Creadigol yw Menter Adfywio Gwledig y Cyngor, ac mae'n gweithredu fel cyflogwr y tîm Cymunedau Gwledig Creadigol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo dros £370,000 fel arian cyfatebol ar gyfer y rhaglen, ac wedi rhoi ymrwymiad ariannol tebyg dros y rhaglenni blaenorol. Darperir gwasanaethau craidd i Gymunedau Gwledig Creadigol am ddim ac mae perthnasau pwysig gydag adrannau allweddol eraill y Cyngor, gan ddatblygu prosiectau a gweithgareddau ymhellach mewn nifer o achosion.

## 1.2 Y briff gwerthuso

Mae'r adroddiad yn ymateb i gais am werthusiad canol tymor o gynnydd gyda darparu'r SDLl gan Cymunedau Gwledig Creadigol ar ran Grŵp Gweithredu Lleol Bro Morgannwg. Roedd y briff yn cynnig nifer fechan o gwestiynau eang i'r gwerthusiad eu hystyried, er mwyn edrych ar y pedwar gofyniad:

- Gwerthuso sut y bydd gweithgareddau LEADER yn helpu i gyflawni amcanion y SDLl

---

[3] *Acronym Ffrengig 'Liaisons Entre Actions pour le Developement de L'Economie Rurale' – yn cysylltu dulliau gweithredu ar gyfer datbylgu'r economi gwledig.*

## RÔL CYMUNEDAU GWLEDIG CREADIGOL

**Erthygl 33**
arian cyfalaf
*tua £2m*

**Cronfa Gweithredu Cymunedol Gwledig**
(refeniw hyd at 2007)
*tua £250k*

**Axis 3 -** cyfalaf (yn bennaf) a (rhywfaint o) gyllid refeniw ar gyfer prosiecta

**Axis 4 -** (rhywfaint o) gyfalaf a refeniw (yn bennaf) ar ddull LEADER

**BP 1** (2007-11)
*tua £6m*

**Axis 3 -** pedair ymbarél - cyfalaf (yn bennaf) a (rhywfaint o) gyllid refeniw ar gyfer prosiectau

**Axis 4 -** (rhywfaint o) gyfalaf a refeniw (yn bennaf) ar gyfer prosiectau peilot dull

**BP 2** (2012-14)
*tua £5m*

**LEADER**
Refeniw
prosiectau peilot dull LEADER
*tua £2.2m*

CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG CYMRU

2004 - 2007 | 2007 - 2014 | 2014 - 2020

CYLLID ARALL

**Waterloo**
Arian Cyfalaf a Refeniw ar gyfer bwrsariaethau pobl ifanc
*tua £186k*

**Cymunedau Arfordirol**
Arian Cyfalaf a Refeniw i ariannu datblygu'r Arfordir Treftadaeth
*tua £267k*

Mae tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn cefnogi eraill i gael mynediad at y cronfeydd hyn sy'n cael eu rheoli'n ganolog gan Lywodraeth Cymru

2014 - 2018
**Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig**
Cyfalaf pob mesur
2019 - 2020
Cyfalaf mesur 7.1
tua *£2m* wedi'i ddyrannu

2018 – Parhau
**Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru**
Mesurau 7.4 a 16.2
Prosiectau peilot ac arddangos – cyfalaf a refeniw
*tua £40k*



- Sut mae trefniadaeth, gweinyddiaeth a phrosesau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn cael eu rheoli
- Sut mae/bydd gweithgareddau'n cyfrannu at gyflawni amcanion strategol a gweledigaeth y SDLl
- Argymhellion i hysbysu unrhyw ddiweddariad o'r SDLl

### Rhaglenni LEADER ym Mro Morgannwg

Mae'r cwestiynau gwerthuso penodol wedi cael eu harchwilio mewn perthynas â thri diben cyffredin gwerthuso:

- **Effeithiolrwydd.** Mae hyn yn gweld sut/os yw amcanion y gweithgareddau a gefnogir yn cael neu'n mynd i gael eu cyflawni. Yng nghyd-destun y gwerthusiad hwn, mae hyn am sut bydd gweithgareddau y rhaglen LEADER yn helpu i gyflawni amcanion y SDLl
- **Effeithlonrwydd.** Mae hyn yn edrych ar allbwn o'i gymharu â mewnbwn; eu cost, gwerth am arian, pa mor amserol ydynt, trefniadaeth a rheolaeth. Yn y gwerthusiad hwn, mae hyn yn ymwneud yn arbennig â rheolaeth Cymunedau Gwledig Creadigol a'r Grŵp Gweithredu Lleol, trefniadaeth a gweinyddiaeth y rhaglen LEADER, a'r prosesau ymgeisio, arfarnu, cyflawni, monitro a gwerthuso
- **Effaith.** Edrych ar y newidiadau cadarnhaol (a negyddol) yn sgil y gweithgareddau, a beth yw eu canlyniad. I'r gwerthusiad hwn, mae hyn am sut mae neu bydd gweithgareddau'n cyfrannu at amcanion strategol a gweledigaeth y SDLl, a/neu os oes ffactorau allanol i'r rhaglen allai effeithio ar ei allu i'w cyflawni.

## 1.3 Dull gwerthuso

Mae ein dull gwerthuso yn un cadwyn rhesymeg. Elfen allweddol sydd wedi arwain y gwerthusiad yw'r fframwaith werthuso a ddatblygwyd ar ddechrau'r broses (ac sydd ar gael fel dogfen ar wahân). Mae hyn yn cysylltu cwestiynau craidd y gwerthusiad i'r tasgau sydd eu hangen i gwrdd â'r amcanion, ac esbonio pam yr ymgymryd â'r tasgau hynny a sut roedd y wybodaeth a gasglwyd yn ymateb i'r cwestiynau gwerthuso.

Fe wnaethom ymgymryd â'r holl dasgau y cytunwyd arnynt. Mae hefyd yn werth nodi mai'r prif ddull ymchwil a ddefnyddiwyd oedd cyfweliadau uniongyrchol – un ai dros y ffon neu wyneb yn wyneb. O ystyried nifer y prosiectau a gefnogir trwy'r rhaglen gyfredol – a cymysgedd o ran effeithiolrwydd technegau fel arolygon ar-lein – teimlwyd mai trafodaethau uniongyrchol gydag arweinyddion/partneriaid prosiect fyddai'r dull mwyaf effeithiol.

Rydym wedi cynnal 31 cyfweliad i gyd gydag unigolion sydd ynghlwm wrth weithgareddau a ariennir, gan gynnwys y rhaglen gyfredol a blaenorol (gyda rhywfaint o'r cynnwys yn cael ei dynnu i'r adroddiad Gwaddol). Cynhaliwyd 13 cyfweliad gydag aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol, trwy gyfuniad o drafodaethau ag unigolion a grŵp ffocws bychan. Rydym hefyd wedi siarad â chwech o staff Cymunedau Gwledig Creadigol, gan nodi fod nifer o'r prosiectau a gefnogir gan y rhaglen gyfredol yn cael eu harwain gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol. Mae'r trafodaethau hyn hefyd wedi ymwneud â materion rheoli rhaglen, cyllid ac ati.

Teimlwn felly fod nifer ac ystod y cyfweliadau a gynhaliwyd i gefnogi'r gwerthusiad canol tymor wedi bod yn helaeth. Nod unrhyw weithgaredd gwerthuso yw dynodi materion/barn sy'n amlygu'n gyson. Gwelir fod barn amrywiol wedi'i mynegi – gyda rhai â barn oedd yn wahanol i'r canfyddiadau cyffredinol a amlinellir yn yr adroddiad – ond rydym wedi cynnwys y materion lle'r oedd consenswS cyffredinol.

Rydym hefyd wedi adolygu gwybodaeth rheoli'r rhaglen a dogfennau cysylltiedig, yn cynnwys unrhyw adroddiadau cau prosiect a gwerthuso a luniwyd. Mae disgrifiad byr o'r prosiectau yn y tabl isod.

## Caffael a Chomisiynu

**Astudiaeth Dichonolrwydd Masnachol Arfordir Treftadaeth Morgannwg**
Astudiaeth i bennu'r cyfleoedd masnachol, gweithgareddau awyr agored a digwyddiadau mwyaf dichonadwy i wella datblygu busnes a gwaith ar Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

**Digwyddiadau Pop-yp Bae Dwn-rhefn**
Yn dilyn yr Astudiaeth Dichonolrwydd Masnachol, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau peilot, i brofi dichonolrwydd digwyddiadau yn y lleoliad hwn. Roedd hyn yn profi'r awydd gan ymwelwyr i fynychu, a pharodrwydd trefnwyr i'w cynnal mewn ardal mor wledig. Arweiniodd hefyd ar becyn cymorth digwyddiadau ar gyfer y dyfodol

**Mapio Cymunedol**
Prosiect peilot yn edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau anstatudol mewn cymunedau gwledig trwy gynnwys cymunedau mewn gwaith mapio gwasanaethau a chyfleusterau sydd ganddynt ac adnabod bylchau. Roedd tair cymuned yn cymryd rhan, gyda'r tair yn ardaloedd twf posibl o ran tai (Sain Tathan, Rhws a Gwenfô). Mae'r pecyn cymorth a ddatblygwyd o'r peilot wedi cael ei ddefnyddio gan o leiaf 12 cymuned arall yn y Fro wledig.

**Rhieni a Phlant Gyda'i gilydd**
Yn llifo o'r prosiect Mapio Cymunedol, cafwyd cyfres o weithgareddau peilot o rieni a phlant wneud gyda'i gilydd mewn lleoliadau cymunedol yn Sain Tathan, Gwenfô, Rhws ac Ystradowen, i gwrdd ag anghenion a ddynodwyd trwy fapio cymunedol.

**Ymweliadau Ieuenctid ac Ysgolion**
Datblygu adnoddau i annog ymwelwyr iau, grwpiau teuluol a grwpiau ysgolion i ymweld â lleoliadau yn y Fro wledig. Gweithiodd y prosiect â darparwyr gweithgareddau ac atyniadau yn y Fro i ddatblygu dewis o amserlenni gydag adnoddau addas a'u marchnata o dan faner 'Teithiau Ysgol y Fro' gan dîm twristiaeth Cyngor Bro Morgannwg.

**Mannau Gwybodaeth Ddigidol i Dwristiaid – Incwm o Argraffu**
Prosiect peilot yn edrych ar ffyrdd arloesol i sefydliadau gael taliadau am gynnyrch i ymwelwyr wedi'i argraffu, gan leihau dibyniaeth ar grantiau a/neu dalu am gostau deunydd wedi'i argraffu. Mae'n cynnig cyfle i ymwelwyr roi cyfraniad am ddeunydd wedi'i argraffu fel mapiau a llwybrau, a chynnig cyfle i lawr lwytho'r ffeil i ddyfais y defnyddiwr. Mae wyth sefydliad yn profi ffyrdd y gallai ymwelwyr wneud cyfraniad tuag at ffi argraffu gwybodaeth i ymwelwyr, fel taflenni teithiau cerdded.

**Pawennau yn y Fro Vale**
Prosiect peilot yn profi agweddau cadarnhaol a negyddol i gymuned fod yn un sy'n croesawu cŵn. Roedd y prosiect yn hyrwyddo llety, mannau bwyta, atyniadau, siopau, llwybrau cerdded a busnesau eraill sy'n croesawu cŵn yng nghefn gwlad Bro Morgannwg.

**Dathlu Illtud Sant**
Edrych ar ffyrdd i ddathlu Illtud Sant, rhannu arfer da, datblygu cysylltiadau a phartneriaethau, gan fagu rhagor o ddiddordeb yn Llanilltud Fawr

**Blwyddyn ....**
Mae Croeso Cymru yn cynnal blynyddoedd thematig (e.e. Blwyddyn y Môr, Blwyddyn Darganfod) ac roedd y peilot hwn yn gweithio gyda busnesau twristiaeth i'w gwneud yn ymwybodol o'r thema flynyddol a sut i'w defnyddio. Arweiniodd at ddau brosiect lleol – Gŵyl y Môr a Gŵyl Ffilmiau'r Fro (o dan thema: Blwyddyn y Chwedlau).

**Rhwydwaith Grefft**
Peilota cyfleoedd i artistiaid/crefftwyr rwydweithio a chydweithio, archwilio cyfleoedd arloesol i werthu ac archwilio datblygu gweithleoedd newydd. Roedd y prosiect yn adeiladu ar brosiectau crefft mewn rhaglenni LEADER blaenorol a'r awydd i ddatblygu llwyfan cyffredin i gydweithio.

**Adeiladau Gwledig Gwag**
Archwilio cyfleoedd i ddatblygu gweithleoedd newydd o adeiladau gwag neu oedd yn cael eu tan-ddefnyddio yn y Fro wledig, ac asesu'r galw am wahanol fathau o weithleoedd

**Gŵyl Grefftau**
Datblygodd hyn o'r Rhwydwaith Grefftau. Bydd yn peilota cyfres o ddigwyddiadau crefft ym mis Medi 2019. Bydd prif benwythnos yr ŵyl yn digwydd ar 21-22 Medi, gyda chyfres o ddosbarthiadau meistr a stiwdios agored ledled y Fro wledig cyn ac ar ôl hynny. Bydd teithiau astudio a phecyn cymorth yn cael ei ddatblygu hefyd.

**Digwyddiad Bwyd y Fro**
Digwyddiad gan Bartneriaeth Bwyd y Fro yn cynnig cyfleoedd i gyfrannu at weledigaeth y bartneriaeth, clywed am fentrau bwyd a chwrdd â rhanddeiliaid bwyd o bob rhan o'r Fro.

**Her Ysgolion Gwyrdd**
Prosiect Peilot i herio ysgolion i ystyried ynni gwyrdd ac arbed ynni trwy 'bythefnos troi i ffwrdd' – digwyddiad wedi'i hwyluso am ddim.

**Digwyddiad Ynni Cymunedol Gwyrdd**
Digwyddiad i roi sylw i ystod o asiantaethau cymorth ar gyfer ynni adnewyddol cymunedol, ac i ddangos enghreifftiau o brosiectau cymunedol. Roedd y rhai a fynychodd yn cynnwys cynrychiolwyr cymunedol a thrigolion y Fro wledig.

**Cegin Fasnachol**
Archwilio'r syniad o gegin fasnachol yn y Fro wledig, fyddai ag offer fel cegin i'w llogi gan gynhyrchwyr sydd angen rhagor o le yn achlysurol. Serch hynny, ni welwyd cynnydd gyda'r prosiect yn ôl y bwriad wedi i bartner cymunedol dynnu'n ôl.

**Astudiaeth Dichonolrwydd Da Byw**
**Astudiaeth dichonolrwydd i weld gofynion ffermwyr lleol a gweld os oes angen marchnad da-byw aml-bwrpas hyfyw yn yr ardal**. Daethpwyd i'r casgliad y gallai cyfleuster marchnad newydd helpu ffermwyr i arallgyfeirio ac ychwanegu gwerth at eu cynnyrch trwy ddarparu cyfleusterau i'w rhannu fel torri cig a storfa oer.

**Ymchwil Busnes i Fusnes**
Ymchwilio i'r cynnig presennol o ran cymorth Busnes i Fusnes ym Mro Morgannwg, lle mae busnesau'n mynd am gymorth a beth yw eu hanghenion. Cyfle i greu catalog/presenoldeb ar-lein i fusnesau yn dangos y cymorth sydd ar gael.

**Sgiliau Digidol y Fro**
Daeth hyn o'r ymchwil busnes i fusnes, a ddangosodd bod angen cynyddu sgiliau. Mae cyfres o gyrsiau wedi'u prynu ar ystod o bynciau i unigolion a chyrff trydydd sector, yn amrywio o gyrsiau diogelwch pobl ifanc ar-lein i rieni, i gynllunio gwefannau ac e-fasnachu. Mae rhai cyrsiau diwrnod, hanner diwrnod a min nos – i brofi beth sy'n fwyaf defnyddiol i rai allai fynychu.

**Gwneud yn fawr o'r archifau**
Edrych ar ffyrdd o ganiatáu mynediad cyhoeddus at archifau yn Y Bont-faen, edrych ar ystod o ddewisiadau ar-lein a goresgyn pryderon fel hawlfraint, hygyrchedd a chost.

**Colabora**
Prosiect cydweithio rhyng-genedlaethol yn gweithio gyda phedwar partner Ewropeaidd arall i ddysgu am ddatblygu lleoliadau gweithio ar y cyd mewn ardaloedd gwledig. Gallai'r prosiect arwain at gyd-gynllunio a phrofi gwasanaethau newydd o fewn y lleoliadau.

**Gŵyl y Môr**
Prosiect peilot dau ran; astudiaeth dichonolrwydd i ddechrau i'r potensial am weithgaredd antur ar hyd yr arfordir treftadaeth (adeiladu ar astudiaethau blaenorol oedd yn amlinellu cyfleoedd masnachol yr arfordir); a digwyddiad ym Mehefin 2019 i bobl gael cyfle i brofi gwahanol weithgareddau awyr agored e.e. arforgampau, ac i ddarparwyr gael profiad o'u trefnu.

**Gŵyl ffilmiau'r Fro**
Prosiect peilot i fanteisio ar y ffilmio helaeth sy'n digwydd yn y Fro wledig e.e. Llwybr Doctor Who, ynghyd â chefnogi'r syniad o ddatblygu economi min nos. Roedd y prosiect yn ceisio helpu pobl i ddeall beth allant ei wneud i ddathlu ffilm yn eu lleoliad

**Seiclo yn y Fro**
Astudiaeth dichonolrwydd ar y potensial i ddatblygu seiclo yn y Fro wledig. Prif gasgliad yr astudiaeth oedd fod marchnad bosibl ar gyfer seiclwyr ffordd ond ychydig i gynnig i seiclwyr llwybr. O ganlyniad, mae gwaith wedi'i wneud i archwilio datblygu llwybrau seiclo i'r Fro, a phecynnu seiclo gyda mannau i fwyta, aros ac ati.

**Lleoliadau Cymunedol Digidol**
Prosiect peilot i brofi systemau llogi ar-lein ar gyfer lleoliadau cymunedol i oresgyn materion llogi e.e. gan fod neb ar gael i'w holi, helpu i leihau'r pwysau gweinyddol o reoli bwcio a chynyddu defnydd o'r lleoliadau cymunedol. Mae dau leoliad yn rhan o'r peilot, yn Llanilltud Fawr a Llandŵ ac mae trafodaethau ar waith i gynnwyd dau leoliad arall.

**Arlwyo Ysgolion y Fro**
Archwilio dichonolrwydd o ddefnyddio cynnyrch lleol ar gyfer prydau ysgol ym Mro Morgannwg, allai gael ei weithredu gan gwmni arlwyo masnachol newydd yr awdurdod lleol.

**AGORA**
Cymryd rhan mewn grŵp thematig bwyd Cymru gyfan i edrych leihau cadwyni cyflenwi bwyd.

## Gwobrau

**Tyddynwyr Morgannwg**
Cefnogwyd grŵp newydd o dyddynwyr i ddod ynghyd i rannu syniadau, arferion a phrofiadau. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd am gyfnod cychwynnol o chwe mis gyda siaradwyr gwadd a rhannu cyfleoedd marchnata i hyrwyddo cynnyrch, cefn gwlad a gweithgareddau'r Fro wledig.

**Gwneud synnwyr o lesiant**
Peilota ystod o weithgareddau/gwasanaethau llesiant i gefnogi sgiliau digidol a chyflogaeth. Yn cynnwys sesiwn ffitrwydd hwyl holistig i ferched, ffitrwydd bygi, Her Fitbit gyda myfyrwyr ysgol a Dosbarthiadau Coginio i rieni a phlant, wedi'u targedu tuag at gymunedau Sain Tathan, Llanmaes a Llanilltud Fawr

**Creu Hafoc gydag Iechyd**
Prosiect peilot i gefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl yng nghefn gwlad Bro Morgannwg sy'n anodd eu cyrraedd. Bydd y prosiect yn gweithio â phobl â phroblemau iechyd meddwl a'u gofalwyr trwy hwyluso ystod o weithgareddau yn cynnwys celf, drama, ysgrifennu creadigol, ffotograffiaeth a gweithdai crefft.

**Prosiect Ffawydden Twt**
Prosiect i archwilio bywyd coeden arwyddocaol yn Y Bont-faen ar ôl ei chwympo. Bydd yn cofnodi nifer o ddarnau a wnaed o'r pren, ac yn cynnal gweithdai i rannu sgiliau gwaith coed gwyrdd a chrefftau yn defnyddio'r pren. Bydd y prosiect yn gorffen gydag arddangosfa o'r gwaith a phecyn cymorth.

**Cynulliad Bwyd Y Bont-faen**
Datblygu gwasanaeth rhag-archebu ar-lein i drigolion y Fro brynu bwyd gan gynhyrchwyr lleol a'u casglu mewn cyfarfod wythnosol yn Ysgol Gyfun Y Bont-faen. Caiff y cynnyrch ei gynhyrchu'n arbennig, felly does dim gwastraff, a bydd defnyddwyr yn gwybod beth allant ei brynu a faint maent wedi'i wario cyn casglu.

**Cynllun Benthyca'r Fro**
Cynllun yn cynnig cyfle i fenthyca tabledi o lyfrgelloedd lleol ar draws y Fro.

**Darpariaeth Ieuenctid wedi'i Arwain gan Wirfoddolwyr**
Mae'r prosiect yn peilota dull newydd o gynnig darpariaeth ieuenctid trwy weithio gyda chymunedau gwledig yn y Fro. Bydd yn cynnwys hyfforddi gwirfoddolwyr lleol i ddatblygu sesiynau gwaith ieuenctid 'mynediad agored' i bobl ifanc 11 i 18 oed. Mae hyn wedi gweithio yn Nhregolwyn a'r Wig yn y lle cyntaf.

**Ysbryd Cymunedol**
Prosiect rhwydweithio a ddatblygodd o'r prosiect Mapio Cymunedol, lle mae cymunedau o'r Fro wledig yn dysgu gan ei gilydd am weithgareddau/mentrau, all helpu i ddatblygu a hyrwyddo ysbryd cymunedol. Mae pedair cymuned wedi cael cefnogaeth ariannol gyda chyllid i beilota digwyddiadau newydd yn y gymuned (Sain Tathan, Pendeulwyn, Llanbedr, Saint Hilari)

## 1.4 Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad gwerthuso wedi'i rannu'n saith adran bellach, a'i gefnogi gan nifer o atodiadau. I grynhoi:

- Adran Dau – cyflwyniad byr i Strategaeth Datblygu Lleol Bro Morgannwg, a sut caiff ei chyflawni a'i rheoli
- Adran Tri – adolygu data allweddol yn disgrifio cyd-destun cymdeithasol-economaidd y Fro wledig, ynghyd â pholisïau a strategaethau diweddar, i asesu unrhyw newidiadau y dylid eu hystyried a'u goblygiadau o'r SDLl wrth symud i ran olaf y rhaglen
- Adran Pedwar – canolbwyntio ar effeithiolrwydd y rhaglen hyd yma, gan ateb y cwestiynau gwerthuso o dan y pennawd hwn
- Adrannau Pump a Chwech – adolygu effeithlonrwydd, gydag Adran Pump yn edrych ar gynnydd yn erbyn targedau a gwariant ac Adran Chwech yn ymateb i gwestiynau gwerthuso ehangach ar y model cyflawni
- Adran Saith – edrych ar effaith y prosiectau a'u cyfraniad tuag at gwrdd ag amcanion y SDLl
- Adran Wyth – tynnu hyn at ei gilydd mewn casgliadau, gan ymateb i'r cwestiynau gwerthuso craidd yn y briff, a gwneud argymhellion ar gyfer gweddill y cyfnod LEADER



## 2.1 Cefndir

Mae'r adran hon yn disgrifio SDLl Bro Morgannwg, ei amcanion craidd a sut mae'n cyd-fynd â phum thema Cynllun Datblygu Gwledig Cymru ar gyfer. Y bwriad yw gosod y cyd-destun ar gyfer ein gwerthusiad yn yr adrannau sydd i ddilyn.

Datblygwyd SDLl Cefn Gwlad Bro Morgannwg yn 2014. I ddechrau, roedd yn sefyll ar ei phen ei hun, ond wedi i Lywodraeth Cymru ofyn i'r Strategaethau ddefnyddio templed cyffredin a diagram rhesymeg, a dilyn pum thema Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, cafodd ei ail-strwythuro i gyd-fynd â hynny. Y ddogfen olaf, gyda'r diagram rhesymeg, yw'r SDLl a gaiff ei defnyddio.

Mae'r SDLl yn amlinellu pedwar blaenoriaeth strategol. Mae gan bob un nod a nifer o amcanion fel y gwelir yn y diagram isod. Mae'n bwysig nodi mai'r bwriad yw defnyddio'r SDLl fel dogfen arweiniol ar gyfer yr holl weithgaredd yn y Fro wledig, yn cynnwys gweithgareddau y tu hwnt i raglen LEADER. Mae rhai gweithgareddau wedi cael eu datblygu gan dimau eraill o fewn y Cyngor. Er enghraifft, mae'r gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y Parth Menter ym Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan wedi cael ei yrru gan dîm datblygu economaidd y Cyngor yn bennaf.

**DIBEN**: Tyfu economi gwledig Bro Morgannwg – nid dim ond er ei fwyn ei hun ond i helpu i gynnal yr amgylchedd gwledig, i gynnal ei gymunedau amrywiol a chreu busnesau llewyrchus.

**PR1**

**Creu mwy o werth economaidd o'r amgylchedd naturiol a hanesyddol er mwyn:**

- Cynyddu potensial busnes a chyflogaeth yr arfordir
- Cynyddu potensial busnes a chyflogaeth yr asedau treftadaeth
- Cynyddu potensial busnes a chyflogaeth gweithgareddau awyr agored
- Cynyddu defnydd cynnyrch lleol i ychwanegu gwerth, gwytnwch a byrhau cadwyni cyflenwi
- Datblygu mwy o gyfleoedd busnes twristiaeth

**PR2**

**Cael y budd mwyaf o fod yn rhan o Ranbarth Dinas Caerdydd, er mwyn:**

- Lleihau cymudo allanol net
- Creu safleoedd i sefydliadau o Gaerdydd yn y Fro
- Cael y budd mwyaf i'r Fro wledig o ddatblygiad yn y Parthau Menter
- Cynyddu defnydd o gynnyrch o'r Fro mewn safleoedd yng Nghaerdydd
- Datblygu cysylltiadau â gwestai cynadledda Caerdydd
- Annog mwy o ymwelwyr â Chaerdydd i ddefnyddio'r Fro wledig ar gyfer busnes a phleser

**PR3**

**Annog busnesau a mentrau cymdeithasol lleol i ddarparu gwasanaethau lleol, er mwyn:**

- Adnabod gwasanaethau'r Cyngor y gallai'r gymuned eu darparu
- Breinio asedau Cyngor y Fro i'r gymuned i gefnogi mentrau lleol yn y Fro wledig
- Archwilio Bond Cymunedol i'r Fro Wledig, Cronfa Ail-fuddsoddi Cymunedol neu fodelau ariannu arloesol tebyg.
- Sicrhau cefnogaeth gymunedol i fwy o ynni adewyddol
- Ymchwilio i fodelau buddsoddi ar gyfer ynni adnewyddol cymunedol ac effeithlonrwydd ynni

**PR4**

**Gwella defnydd digidol o fewn busnesau a'r gymuned, er mwyn:**

- Cyfuno galw lleol i annog cyflwyno technoleg yn gyflymach
- Darparu canolfannau digidol a wifi cyhoeddus mewn pentrefi a lleoedd eraill lle mae darpariaeth yn wan
- Darparu gwybodaeth ddiweddaraf i ymwelwyr
- Gwella llythrennedd ddigidol busnesau a chymunedau lleol
- Cefnogi twf busnesau a chynnig gwasanaethau trwy ddefnyddio offer TGCh

Roedd Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yn amlinellu pum thema ar gyfer LEADER. Mae SDLl y Fro wledig wedi cymryd rhan yn y pump, fel y gwelir isod. Mae pennawd pob thema wedi'i deilwra i gyd-fynd â'r ffordd y caiff ddefnyddio yn y Fro. Yr amcanion penodol ar gyfer pob thema yw'r rhai yn y Diagram Rhesymeg mwyaf diweddar. Mae'r themâu trawsbynciol yn mynd trwy'r holl themâu/blaenoriaethau a'u hamcanion.

| **Thema 1:** Y Fro Ddeniadol | **Thema 2:** Labordy Arloesi Busnes | **Thema 3:** Cymunedau sy'n Esblygu | **Thema 4:** Ynni Cymunedol Gwyrdd | **Thema 5:** Manteisio ar dechnoleg ddigidol |
|---|---|---|---|---|
| Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol | Hwyluso datblygu cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr | Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau an-statudol | Ynni adnewyddol ar lefel gymunedol | Archwilio technoleg ddigidol |
| **Amcanion penodol:**<br>Cynyddu potensial busnes a chyflogaeth yr arfordir<br>Cynyddu potensial busnes a chyflogaeth yr asedau treftadaeth<br>Cynyddu potensial busnes a chyflogaeth gweithgareddau awyr agored | **Amcanion penodol:**<br>Cael y budd mwyaf o fod yn rhan o Ranbarth Dinas Caerdydd<br>Archwilio cyfleoedd i ddefnyddio lleoliadau gwag neu sy'n cael eu tanddefnyddio a chefnogi ailddatblygu at ddefnydd busnes<br>Cynyddu defnydd o gynnyrch lleol i ychwanegu gwerth, byrhau cadwyni cyflenwi a datblygu cynnyrch lleol<br>Datblygu rhagor o gyfleoedd busnes twristiaeth<br>Creu cysylltiadau rhwng busnesau yn ac o amgylch y Parth Menter | **Amcanion penodol:**<br>Adnabod cyfleoedd am wasanaethau ac asedau<br>Codi incwm o asedau cymunedol a breinio rhai mewn mentrau cymunedol i gefnogi mentrau economaidd yn y Fro wledig<br>Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd am gynlluniau cymunedol wedi'u lleol hariannu<br>Edrych ar faterion yn ymwneud â dieithrio gwledig a darpariaeth gwasanaethau llesiant yn y Fro wledig | **Amcanion penodol:**<br>Sicrhau cefnogaeth gymunedol i gael mwy o ynni adnewyddol<br>Ymchwilio i fodelau ariannu a buddsoddi ar gyfer ynni adnewyddol cymunedol | **Amcanion penodol:**<br>Cyfuno galw lleol i annog cyflwyno band eang cyflym iawn yn gyflymach<br>Rhoi gwybodaeth i gymunedau iddynt fedru manteisio ar dechnoleg ddigidol<br>Cynyddu gwerthiant a chynhyrchiant busnesau lleol |
| Themâu trawsbynciol - Datblygu Cynaliadwy, Cyfle Cyfartal, Tlodi a Chynhwysiant Cymdeithasol, Yr Iaith Gymraeg | | | | |

Datblygwyd y SDLl trwy gyfres o gamau oedd yn cynnwys barn o ystod o ymgynghoriadau, dadansoddiad SWOT, ymchwil data cymdeithasol-economaidd ac adolygu polisi. Cynhaliwyd y broses yn 2014. Mae'r SDLl felly'n adlewyrchu'r blaenoriaethau ar y pryd.

## 2.2 Sut mae'n cyd-fynd â phum thema Cynllun Datblygu Gwledig Cymru

Mae Cynllun Datblygu Cymru Wledig, sef Rhaglen Weithredol y Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig yng Nghymru sy'n cynnwys LEADER (a gweithgareddau datblygu gwledig eraill), yn gosod pum thema y bydd angen i weithgareddau gweithredu gyd-fynd â hwy. Mae hefyd yn amlinellu canllawiau ar gyfer gweinyddu, rheoli a hwyluso Grwpiau Gweithredu Lleol, a gweithgareddau cydweithio ar gyfer LEADER[4] .

[4] *Mesur 19 Cynllun Datblygu Cymru Wledig ac is-fesurau cysylltiedig. Mae'r thema Cydweithio yn ymwneud â Grwpiau Gweithredu Lleol yn cydweithio a rhannu profiadau trwy brosiectau ar y cyd.*

Mae pum thema Cynllun Datblygu Cymru Wledig ar gyfer gweithgareddau gweithredu (sydd i'w gweld yn y diagram uchod) yn cynnwys:

- Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol
- Hwyluso datblygu cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr
- Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau an-statudol
- Ynni adnewyddol ar lefel gymunedol
- Archwilio technoleg ddigidol

Mae'r Tabl Rhesymeg Ymyrraeth yn rhan ganolog o'r SDLl sy'n mapio amcanion strategol a chyflawni ar gyfer pum thema Cynllun Datblygu Gwledig Cymru a'r thema cydweithio (ynghyd â gweithgareddau dangosol, dangosyddion allbwn a thargedau).

Mae'n bwysig cydnabod fod cael SDLl gydag un set o flaenoriaethau, a rhaglen weithredol sy'n gofyn am weithgaredd i gyfrannu at bum thema strategol, yn ychwanegu haen o gymhlethdod i gynnig gweithgareddau ar lawr gwlad. Os yw'r SDLl i'w chyflawni'n llawn, mae angen i brosiectau fodloni'r ddwy set o ofynion. Fel mae ein diagramau uchod yn dangos, nid oes unrhyw un o bedair blaenoriaeth y SDLl yn eistedd yn gyfan-gwbl o fewn unrhyw un o bum thema Cynllun Datblygu Gwledig Cymru. Serch hynny, maent yn mapio'n gyffredinol ar eu traws. Er enghraifft, mae Thema 4 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru'n cwrdd ag amcanion ynni adnewyddol PR3. Gall amcanion cyflawni o un blaenoriaeth strategol gael ei rannu rhwng themâu Cynllun Datblygu Gwledig Cymru. Yn ymarferol, mae canllawiau rhaglen y Fro yn hyrwyddo pum thema Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, ac yn nodi fod gan bob un nifer o amcanion cyflawni, a amlinellir yn y SDLl.

## 2.3 Cyflawni

Mae tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn eistedd o fewn Tîm Adfywio Cyngor Bro Morgannwg. Mae'n un o bedwar tîm eang, sydd i'w gweld yn y diagram isod.




Caiff gweithgaredd LEADER trwy'r SDLl ei gyflawni gan Gymunedau Gwledig Creadigol ar ran y Grŵp Gweithredu Lleol:

- Caiff tîm Cymunedau Gwledig Creadigol ei westeio gan Gyngor Bro Morgannwg, ac mae ganddo strwythur staffio benodol i helpu i gyflawni rhaglen LEADER. Mae'r strwythur wedi newid y ddiweddar, ond hyd at 1 Ebrill 2019, roedd yn cynnwys:
  - Arweinydd y Tîm (yn rheoli dau dîm, felly i bob pwrpas yn rhan amser fel adnodd Cymunedau Gwledig Creadigol)
  - 4 x Uwch Swyddog Adfywio Gwledig (oriau'n seiliedig ar angen, nid ar sail llawn amser)
  - 1 x Swyddog Adfywio Gwledig/Swyddog Ffilm
  - 1 x Cynorthwy-ydd Adfywio (Rhan Amser)

- 1 x Swyddog Monitro (Rhan Amser)
- 1 x Cynorthwy-ydd Gweinyddol (Rhan Amser)

- O fis Mai 2019 mae newidiadau staffio a strwythur wedi arwain at y newidiadau canlynol:
  - 1 x Swyddog Datblygu'r Rhaglen
  - 3 x Uwch Swyddog Adfywio Gwledig (1 yn wag ar hyn o bryd, er y gellir tynnu adnodd i mewn i brosiectau yn achlysurol fel y bydd angen)
  - 1 x Swyddog Ffilm Dros Dro
  - 1 x Cynorthwy-ydd Adfywio (Rhan Amser)
  - 1 x Swyddog Monitro (Rhan Amser ond rhagor o oriau)
  - 1 x Cynorthwy-ydd Gweinyddol (Rhan Amser)

Mae pedair cangen i'r rhaglen LEADER gyfredol – a phob un â chyllideb benodol – gyda chyflawniad y rhaglen yn seiliedig ar hynny:

- Bywiocau – cyfeirio at weithgareddau i symbylu diddordeb lleol mewn datblygu gwledig, gan gyflwyno syniadau a phrosiectau
- Gweithredu – cyfeirio ar ddarparu a chefnogi gweithgareddau sy'n ceisio cwrdd ag amcanion y SDLl
- Gweinyddu – cyfeirio at weinyddu'r rhaglen, yn cynnwys staff rheoli'r rhaglen a chostau eraill
- Cydweithio – cyfeirio at weithgareddau sy'n cynnal ar draws ardaloedd LEADER (rhyng-genedlaethol a/neu genedlaethol), gan eu hannog i weithredu ar faterion cyffredin.

## 2.4 Y Gyllideb

Cyfanswm cyllideb LEADER yn y Fro wledig yw tua £2.2m gyda thua £1.8m yn gyllid Ewropeaidd trwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru a'r gweddill yn arian cyfatebol. Mae angen yr arian cyfatebol (o leiaf 20%) ar gyfer prosiectau Gweithredu a Chydweithio, tra ariennir 100% o'r gweithgaredd bywiocau a chostau gweinyddol cynnal y rhaglen. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi rhoi arian cyfatebol o tua £341,250, er bod rhai prosiectau hefyd wedi cyfrannu arian cyfatebol (gyda chyfran helaeth yn gyfraniad mewn da).

Mae'r cyllidebau penodol ar gyfer canghennau'r rhaglen i'w gweld yn y tabl isod.

| | Cyllid Cynllun Datblygu Gwledig Cymru | Arian Cyfatebol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Gweithredu | £1,296,748 | £324,187 | £1,620,935 |
| Bywiocau | £273,000 | £0 | £273,000 |
| Gweinyddu | £182,000 | £0 | £182,000 |
| Cydweithio | £68,249 | £17,063 | £85,312 |
| **Cyfanswm** | **£1,819,997** | **£341,250** | **£2,161,247** |

Mae gan y rhaglen gyfredol wahanol strwythur ariannu i'r rhaglenni blaenorol. Mewn rhaglenni blaenorol, roedd costau staff cefnogi yn ymwneud yn agosach gyda gweithgareddau prosiect penodol. Roedd yn rhaid i staff Cymunedau Gwledig Creadigol gofnodi eu gweithgareddau er mwyn i'r costau gael eu clustnodi yn erbyn costau prosiectau penodol. Mae hyn wedi cael ei symleiddio yn y rhaglen gyfredol. Mae'r gyllideb Gweithredu yn cefnogi costau staff Cymunedau Gwledig Creadigol sy'n arwain ar weithgareddau prosiect (Uwch Swyddogion Adfywio Gwledig yn bennaf), hab gael ei adlewyrchu yng nghostau'r prosiect. Mae dyraniadau penodol wedi cael eu neilltuo ar gyfer gwariant prosiectau – un ai trwy weithgareddau wedi'u caffael / comisiynu neu grantiau.

Mae'r costau y gellir eu gwario ar weithgareddau datblygu prosiect yn cael eu pennu trwy geisiadau i'r Grŵp Gweithredu Lleol eu cymeradwyo. Mae'r cyllid cymeradwy yna ar gael o'r mudiad sy'n arwain y prosiect. Gall hynny fod yn Gymunedau Gwledig Creadigol eu hun, gan ei fod wedi gweithredu fel ymgeisydd/arweinydd prosiect ar gyfer nifer o brosiectau, neu'n fudiad allanol. Fel y gwelir yn Atodiad 1, mae'r symiau dan sylw'n weddol fach ar sail prosiect. Ond mae'n werth nodi na ddylai hyn gael ei weld fel cyfanswm cost datblygu prosiect. Gan fod llawer o amser staff Cymunedau Gwledig Creadigol yn cael ei roi i gefnogi a datblygu prosiectau – yn cynnwys rhai maent hwy ac eraill yn eu harwain – byddai cyfanswm 'cost adnoddau' pob prosiect yn adlewyrchu'r gefnogaeth gan Cymunedau Gwledig Creadigol.

Gellir torri cyllideb y gangen Gweithredu ymhellach i ddangos y cyllid sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygu prosiectau'n uniongyrchol, a'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer costau staff sy'n cefnogi'r gweithgareddau hynny'n anuniongyrchol. Mae'r tabl yn dangos fod ychydig dan ddwy ran o dair o'r gyllideb Gweithredu wedi'i dyrannu ar gyfer costau staff Cymunedau Gwledig Creadigol.

| | Cyllid Cynllun Datblygu Gwledig Cymru | Arian Cyfatebol | Cyfanswm | % o'r gyllideb gyfan |
|---|---|---|---|---|
| Caffael a chomisiynu gan y Grŵp Gweithredu Lleol | £298,654.40 | £74,664 | £373,318 | 23% |
| Grantiau Prosiect | £160,000 | £40,000 | £200,000 | 12.3% |
| Costau staff Cymunedau Gwledig Creadigol (swyddogion prosiect) | £721,310 | £180,327 | £901,637 | 56% |
| Marchnata prosiectau | £12,800 | £3,200 | £16,000 | 1% |
| Costau cyffredinol (cyfradd o 15%) | £103,984 | £25,996 | £129,980 | 8% |
| **CYFANSWM** | **£1,296,748** | **£324,187** | **£1,620,935** | **100%** |

Mae'r modd y gellir gwario cyllid LEADER wedi'i ragnodi mewn canllaw gan Lywodraeth Cymru. Yn ei hanfod, mae'r gyllideb ar gyfer refeniw yn unig. Yn groes i raglenni blaenorol, nid yw gwariant cyfalaf[5] yn gymwys yn y rhaglen hon. Nid yw canllawiau LEADER yn rhoi rhestr benodol o beth allai fod yn weithgareddau cymwys – mae hyn wedi amlygu trwy gyfres o gwestiynau ac atebion rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol a Llywodraeth Cymru i brofi pa weithgareddau y gellid eu cynnal trwy gyllid LEADER. Elfen bwysig yw nad oes gan raglen LEADER sicrwydd o ran Cymorth Gwladwriaethol[6], sy'n golygu na all wneud rhywbeth i roi cymorth uniongyrchol i fusnesau neu mudiadau economaidd[7]. Mae hyn yn gyd-destun pwysig ar gyfer gwerthuso, ac fe'i trafodir yn fanylach yn ddiweddarach.

## 2.5 Prosiectau

O dau ddwy gangen sy'n canolbwyntio ar gyflawni (Gweithredu a Chydweithio) mae'r nifer canlynol o brosiectau wedi'u cymeradwyo ac un ai wedi'u cyflawni neu yn y broses o gael eu cyflawni.

[5] *Diffinnir fel gwariant dros £10,000 ac oes o dros flwyddyn*

[6] *Ein dealltwriaeth yw i Lywodraeth Cymru benderfynu peidio ymgeisio am/defnyddio sicrwydd De Minimus, fyddai wedi caniatau rhoi grantiau bychain i fusnesau ac eraill. Rydym yn deall fod hyn o ganlyniad i argymhellion gwerthuso o raglen flaenorol*

[7] *Wedi'u diffinio fel unrhyw fenter sy'n ymwneud â gweithgaredd economaidd, beth bynnag fo'u statws cyfreithiol, gan felly gynnwys mentrau cymdeithasol a chymunedol*

### Gweithredu

Mae 35 prosiect wedi'u cymeradwyo hyd yma (Mawrth 2019). Mae hyn yn cynnwys 27 prosiect a gafodd eu caffael neu eu comisiynu'n uniongyrchol gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol, ac 8 a gafodd gymorth ariannol a'u harwain gan fudiadau allanol. Gellir rhannu un prosiect – Ysbryd Cymunedol – yn nifer o brosiectau llai. Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn crynhoi hynny.

Hyd yma, mae tri phrosiect wedi'u cyflwyno i'r Grŵp Gweithredu Lleol eu hystyried, ond heb fynd ymhellach:

- Astudiaeth Dichonolrwydd Rheilffordd Aberddawan – nid oedd y prif Grŵp yn cefnogi datblygu astudiaeth dichonolrwydd i archwilio posibilrwydd datblygu llwybr seiclo ar hyd hen reilffordd Aberddawan
- Prosiect hadau – tynnwyd y prosiect yn ôl rhag cael ei ystyried gan y prif Grŵp, gan na chafodd ei argymell i'w gymeradwyo gan is-grŵp y Grŵp Gweithredu Lleol
- Eglwys Brewis - astudiaeth dichonolrwydd yn edrych ar adfer a defnydd arall i'r eglwys hanesyddol



### Cydweithio:

Hyd yma, mae 1 wedi cael ei chymeradwyo ac ar waith – Colabora. Caiff ei thrafod yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

## 2.6 Rôl y Grŵp Gweithredu Lleol a Chymunedau Gwledig Creadigol

Mae gan Grŵp Gweithredu Lleol Bro Morgannwg gyfrifoldeb i oruchwylio cyflawni LEADER yn y Fro wledig a chymeradwyo a chomisiynu prosiectau newydd yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru a'r SDLl. Mae gweithgareddau'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi'u hamlinellu yn y Cylch Gorchwyl. Dylid gwneud holl benderfyniadau'r Grŵp Gweithredu Lleol trwy gonsensws. Os nad yw hynny'n bosibl, bydd yr aelodau'n pleidleisio, a bydd angen mwyafrif syml. Os bydd yn gyfartal, y Cadeirydd sydd â'r bleidlais fwrw. Mae'r Grŵp yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn, a'r papurau'n cael eu dosbarthu cyn y cyfarfod.

Mae gofyn i strwythur a chyfansoddiad y Grŵp gyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gydbwysedd cynrychiolaeth o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae gan Grŵp Gweithredu Lleol Bro Morgannwg 22 chynrychiolydd – er nad yw pob un o anghenraid yn mynychu pob cyfarfod[8]. O adolygu cofnodion y Grŵp, gwelir fod presenoldeb da yn y cyfarfodydd. Mae aelodaeth y Grŵp wedi'i rannu rhwng cynrychiolwyr o'r sector preifat (5), cyhoeddus (7) a gwirfoddol (10). Yn ein barn ni, mae hynny'n cyd-fynd â chanllaw Llywodraeth Cymru. Mae'r Grŵp yn cael ei gadeirio gan aelod o'r sector gwirfoddol ar hyn o bryd. Mae aelodau Cabinet Cyngor Bro Morgannwg sydd â chyfrifoldeb am Adfywio a'r Amgylchedd hefyd yn cael eu gwahodd, iddynt fedru adrodd yn ôl i'r Cabinet ar y gweithgareddau a chynrychioli'r Cyngor.


---

[8] *Mae aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn cynrychioli mudiadau o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Nid ydynt yno fel unigolion*

Mae Cymunedau Gwledig Creadigol yn cynnig cefnogaeth swyddogion ac ysgrifenyddiaeth i'r Grŵp, gyda'r 8 o staff (cymysgedd o swyddi llawn a rhan amser, ac felly ddim yn cyfateb i swyddi llawn amser) a ddisgrifiwyd uchod. Mae staff Cymunedau Gwledig Creadigol yn cael eu cyflogi gan Gyngor Bro Morgannwg gan mai'r Cyngor yw corff gweinyddol ac atebol LEADER, gan gynnig rheolaeth ariannol a gweinyddol. Mae staff Cymunedau Gwledig Creadigol yn adrodd i adran Adfywio'r Cyngor. Mae cyfrifoldeb drwyddi draw am y rhaglen o fewn y Cyngor gyda Rheolwr Gweithredol Adfywiol.

Mae prif weithgareddau penderfynu'r Grŵp Gweithredu Lleol yn canolbwyntio ar brosiectau sy'n cael eu cyflwyno trwy raglen LEADER. Mae Cymunedau Gwledig Creadigol wedi datblygu proses a gwaith papur cysylltiedig i gefnogi'r broses benderfynu, gan sicrhau cofnodi penderfyniadau. Rydym wedi adolygu gwaith papur y prosiectau, ac yn teimlo'i fod yn galluogi'r Grŵp Gweithredu Lleol i wneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw. Mae lefel y wybodaeth sydd ei hangen gan ymgeiswyr yn cyd-fynd yn fras â lefel y cymorth ariannol maent yn gofyn amdano, yn enwedig gan fod tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn helpu llawer trwy'r broses ymgeisio.

Yn y Fro, mae'r prif Grŵp Gweithredu Lleol wedi sefydlu nifer o is-grwpiau o amgylch pum thema Cynllun Datblygu Lleol Cymru – mae'r strwythur i'w weld isod. Mae staff Cymunedau Gwledig Creadigol yn darparu cymorth ysgrifenyddol i'r prif Grŵp a'r is-grwpiau.




Rôl yr is-grwpiau yw trafod a symbylu gweithgareddau prosiect posibl o dan bob thema, a gwerthuso syniadau/ceisiadau am brosiectau. Caiff y prosiectau eu gwerthuso yn erbyn matrics sgorio. Mae aelodau tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn mynychu'r is-grwpiau ac yn gweithio gydag aelodau'r is-grwpiau i drafod a datblygu syniadau. Yna bydd yr is-grwpiau'n gwneud argymhellion i brif fwrdd y Grŵp Gweithredu Lleol ynglŷn â chymeradwyo, gwrthod neu ddatblygu syniadau ymhellach. Nid oes gan yr is-grwpiau Gylch Gorchwyl penodol. Caiff y strwythur a'r broses eu trafod yn fanylach yn ddiweddarach, gan fod barn wedi'i mynegi am sut roedd yn effeithio ar waith prif fwrdd yr Grŵp Gweithredu Lleol.

Un pwynt pwysig arall yw fod tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn fwy yng nghyfnod y Rhaglen LEADER flaenorol (2007-2013). Roedd Swyddog Datblygu'r Rhaglen oedd yn gyfrifol am 5 Uwch Swyddog Adfywio Gwledig oedd yn cyflawni'r rhaglen ar lawr gwlad. Roedd y tîm yn gyfrifol am ddatblygu prosiectau refeniw trwy raglen LEADER a phrosiectau (refeniw a chyfalaf) trwy Axis 3. Drwyddi draw, fel sydd i'w weld yn y diagram yn Adran 1.2, roedd cyllideb llawer mwy i'w rheoli. Yn sgil cyllideb lai yn y rhaglen hon, mae maint y tîm wedi lleihau a bellach yn canolbwyntio ar gyflawni rhaglen LEADER. Serch hynny, bydd yn cyfeirio at raglenni eraill lle bo hynny'n briodol ac yn rhoi cymorth mwy uniongyrchol i fudiadau eraill yn y Fro i ddatblygu ceisiadau i gael mynediad at raglenni cyllid eraill – y rhai amlycaf yw'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ac Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru.

## 2.7 Dull 'caffael a chomisiynu'

Ffocws craidd i'r rhaglen gyfredol yw datblygu prosiectau sy'n ceisio archwilio ac ymchwilio i weld os gellir datblygu gweithgareddau (helpu i gyflawni amcanion y SDLl) ar sail ymarferol a chynaliadwy. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu gweithgareddau peilot, profi cysyniad a/neu weithgareddau dichonolrwydd. Mae hyn wedi'i yrru'n rhannol gan y cyfyngiadau yn y rhaglen gyfredol ar gynnig cymorth ariannol yn uniongyrchol i fusnesau, er ei fod yn elfen bwysig mewn rhaglenni LEADER blaenorol.

Mae hyn wedi'i ddarparu trwy'r gangen Gweithredu, a gall ei rannu i ddau fath cyffredinol o gyflawni prosiect:

1. **Comisiynu a/neu gaffael uniongyrchol** – mae'r gweithgareddau wedi'u gyrru gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn bennaf ar ran mudiadau neu sectorau penodol yn y gymuned. Mae'r tîm wedi gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid allanol, gan gynnig rheolaeth prosiect a symbyliad ar gyfer y gweithgareddau. Yn hynny o beth, mae'r tîm wedi gweithredu fel ymgeisydd ar ran y grwpiau hynny – gan ddatblygu'r cysyniad, mynd â chynigion gerbron y Grŵp Gweithredu Lleol i'w cymeradwyo ac yna cyflawni'r prosiect. Hyd yma, mae 27 prosiect wedi'u datblygu a'u cymeradwyo ar y model hwn. Mewn llawer ffordd, mae rôl y tîm wedi ymwneud â datblygu 'hedyn' syniad a gafwyd gan y gymuned a rhoi symbyliad i helpu'r hedyn i dyfu.
2. **Cefnogaeth ariannol** – mae'r gweithgareddau hyn wedi cynnwys cynnig cymorth ariannol bychan i fudiadau allanol ymgymryd â gwaith. Mae'r ffocws eto wedi bod ar archwilio/ymchwilio i ddichonolrwydd datblygu atebion tymor hir ar gyfer darparu gwasanaethau. Yn yr achosion hyn, mae'r mudiad allanol wedi gweithredu fel yr ymgeisydd. Mae llai o brosiectau wedi'u datblygu yn dilyn y model hwn[9].

Un o ganlyniadau'r dull yma yw bod Cymunedau Gwledig Creadigol wedi bod yn ganolog i gyflawni gweithgareddau prosiect o fewn y rhaglen. Mae pwyslais wedi bod arnynt yn datblygu cysyniadau – weithiau ar gais y Grŵp Gweithredu Lleol neu is-grŵp – sy'n cyd-fynd â'r hyn sy'n cael ei ganiadau wrth gyflawni prosiectau ac yn cwrdd ag amcanion y SDLl (a Chynllun Datblygu Gwledig Cymru).

Serch hynny, mae cwestiwn yn codi ynghylch os yw hyn wedi golygu gormod o ddibyniaeth ar allu tîm Cymunedau Gwledig Creadigol, ac felly heb berchnogaeth y gymuned ehangach. Tra bo ffocws tîm Cymunedau Gwledig Creadigol wedi bod ar gyrraedd sefyllfa – os profir dichonolrwydd/cysyniad – lle bydd modd tynnu'n ôl oddi wrth y weithgaredd, nid yw hynny wastad wedi gweithio yn ôl y disgwyl. Rydym yn trafod gallu cymunedol yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Gan fod tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn cael ei ariannu gan raglen LEADER yn bennaf, mae dibyniaeth ar y cyllid i gynnal gallu'r tîm. Mae ansicrwydd am y cyllid yn y dyfodol, yn enwedig wrth i'r DG adael yr UE, ac felly mae perygl o'i golli dros amser. Teimlwn y dylai un o brif ystyriaethau'r Grŵp Gweithredu Lleol dros weddill y rhaglen fod ar sut y gellid cynnal y gallu hwn, neu sut gallai'r sgiliau a'r arbenigedd o fewn Cymunedau Gwledig Creadigol gael eu trosglwyddo i'r gymuned.

## 2.8 Crynodeb

- Mae'r SDLl yn cynnwys pedwar amcan strategol, gydag 20 amcan cyflawni oddi tanynt, i gefnogi'r weledigaeth o sicrhau cymunedau gwledig hunan-gynhaliol, amrywiol a ffyniannus

[9] *Caiff Ysbryd Cymunedol ei ystyried yn un prosiect, ond yn cynnwys nifer o is-brosiectau ar wahân.*

- Ochr yn ochr â hyn mae pum thema Cynllun Datblygu Gwledig Cymru y bydd angen i weithgareddau gyd-fynd â hwy, a thema Cydweithio'r Grŵp Gweithredu Lleol
- Mae Cymunedau Gwledig Creadigol yn cyflawni'r SDLl ar ran y Grŵp Gweithredu Lleol
- Mae gan y SDLl gyllideb o £2.2m gyda 84.4% wedi'i dyrannu/ymrwymo (diwedd Mehefin 19)
- Mae'r cynllun wedi cefnogi 35 hyd yma trwy'r gangen Weithredu, ac un arall trwy'r gangen Gydweithio[10]
- Yn y gangen Weithredu, mae prosiectau wedi'u caffael neu eu comisiynu trwy dîm Cymunedau Gwledig Creadigol – trwy gyfarwyddyd a chymeradwyaeth y Grŵp Gweithredu Lleol – neu'n brosiectau sy'n cael eu harwain gan fudiadau allanol sydd wedi derbyn cefnogaeth ariannol. Mae'r prosiectau'n canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi ymchwil gynnar ac ar raddfa fach, a gweithgareddau dichonolrwydd a phrofi cysyniad
- Mae gwahaniaeth mawr rhwng yr hyn y gall LEADER ei gefnogi trwy'r rhaglen gyfredol i'r hyn a gefnogwyd gan raglenni blaenorol (e.e. yn rhaglen 2007 – 2013). Agwedd allweddol yw nad oes elfen gyfalaf i LEADER y tro hwn ac ni all gefnogi busnesau (na mudiadau economaidd) yn uniongyrchol. Hefyd, rhaid i unrhyw brosiect sydd am gael grant cyfalaf mawr wneud cais canolog i'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig sy'n cael ei gweinyddu gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn wahanol i'r rhaglen flaenorol yn yr ystyr fod gan y Grŵp Gweithredu Lleol lawer mwy o reolaeth dros brosiectau trwy ei ddylanwad dros Axis 3 – roedd yn gallu cael dylanwad uniongyrchol dros ddyrannu cyllid. Nid yw hynny'n bod gyda'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig.
- Mae'r ffordd y caiff y rhaglen ei hariannu hefyd yn wahanol i raglenni blaenorol. Caiff amser staff prosiect Cymunedau Gwledig Creadigol bellach ei ariannu o'r gangen Gweithredu yn gyfan gwbl, yn hytrach na'i glustnodi yn erbyn prosiectau ar wahân. Un o'r canlyniadau yw nad ydyw bellach yn bosibl amcangyfrif cost cyflawni penodol pob prosiect.
- Mae gwahaniaeth bychan ym maint tîm Cymunedau Gwledig Creadigol ers cyfnod y rhaglen flaenorol (2007-2013), gan adlewyrchu cyllideb lai a mwy o bwyslais ar LEADER o ran hwyluso/cyflawni'n uniongyrchol.
- Mae angen ystyried sut i gadw gafael ar arbenigedd tîm Cymunedau Gwledig Creadigol ar gyfer y dyfodol.

---

10 *Nid yw'n cynnwys cynigion am brosiectau sy'n mynd i Fwrdd y Grŵp Gweithredu Lleol ar 19 Gorffennaf*

# 3 Cyd-destun cymdeithasol-economaidd sy'n newid

## 3.1 Adolygu'r SDLl a dangosyddion eraill allai fod yn berthnasol

Rydym wedi adolygu'r data allweddol a ddefnyddiwyd yn y SDLl i ddynodi materion allweddol i'w cynnwys yn amcanion y SDLl.

Lluniwyd y SDLl yn gymharol ddiweddar (2014) ac o ganlyniad, mae'n annhebygol y bydd amodau cymdeithasol-economaidd yn y Fro wledig wedi newid yn sylweddol yn y cyfnod dilynol. Hefyd, os yw'r amodau wedi newid, efallai na fydd hyn yn cael ei adlewyrchu eto yn y data wedi'i ddiweddaru ers llunio'r SDLl (oedd yn cynnig gwaelodlin ar gyfer unrhyw ddadansoddiad cymdeithasol-economaidd pellach).

Roedd llawer o'r data yn y SDLl yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011. Felly nid oes diweddariad ar gael. Serch hynny, mae rhai diweddariadau data sydd yn bwysig i'w hamlinellu o ystyried pa mor berthnasol ydynt i themâu'r SDLl.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru ar gyfer amddifadedd perthynol ar gyfer ardaloedd bychain yng Nghymru. Fe'i cynlluniwyd i ddynodi'r ardaloedd hynny lle mae'r crynhoad mwyaf o nifer o fathau o amddifadedd. Mae'n fesur o amddifadedd lluosog felly sy'n fesur ar sail ardal ac o amddifadedd perthynol. Mae'n ystyried wyth math o amddifadedd, gyda phob un yn cael ei greu o nifer o wahanol ddangosyddion. Mae'r fersiwn diweddaraf yn ymwneud â data 2014 (er iddo gael ei ryddhau ar ôl creu'r SDLl yn 2014), gyda'r nesaf i gael ei ryddhau yn ddiweddarach yn 2019.

Mae'r Mynegai'n cael ei gyfrifo ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru (ardaloedd sydd â chyfartaledd poblogaeth o tua 1,600). Mae 31 ardal o'r fath yn y Fro wledig (allan o gyfanswm o 79 ym Mro Morgannwg i gyd), yn y 10 ward o fewn ardal rhaglen LEADER.

O ran y mynegai amddifadedd drwyddi draw[11], mae gan Fro Morgannwg 4 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru a 12 yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae hyn yn cynrychioli 15.2% o'r holl ardaloedd ym Mro Morgannwg, ond dim ond 0.6% o'r rhai yng Nghymru. Nid oes ardaloedd yn y Fro wledig o fewn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ar y cyfan yn y Barri. Mae rhannau bach o Lanilltud Fawr, Sain Tathan a Dinas Powys yn cynrychioli'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y Fro wledig.




[11] *Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru'n cael ei lunio trwy gyfrif y sgôr amddifadedd yn yr 8 maes. Rhoddir pwyslais i adlewyrchu pwysigrwydd y maes fel agwedd o amddifadedd, ac ansawdd y dangosyddion sydd ar gael ar gyfer y maes. Gyda'i gilydd, mae 'incwm' a 'chyflogaeth' yn cynrychioli 47% o'r pwyslais drwyddi draw.*

Felly, y casgliad cyffredinol yw fod y Fro wledig yn parhau'n ardal gymharol gyfoethog, gyda lefelau amddifadedd is na'r hyn a welir yn y Barri a Phenarth.

- Serch hynny, mae pocedi bychain o amddifadedd yn parhau.

Caiff rhywfaint o ddata'r Mynegai ei ddiweddaru'n flynyddol, lle bo hynny'n bosibl. Cafodd y data diweddaraf i gael ei ddiweddaru ei gyhoeddi rhwng Rhagfyr 2017 ac Ionawr 2018. Mae'n bwysig nodi mai'r data cefndir sy'n cael ei ddiweddaru ac nid y safleoedd, sef ffocws y Mynegai mwyaf cynhwysfawr.

- Mae dangosyddion iechyd blynyddol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn amlinellu rhai gwahaniaethau rhwng y Fro wledig a lleoedd eraill. Mae yno gyfradd farwolaeth llawer is (wedi'i safoni ar sail oed-rhyw i ystyried gwahaniaethau demograffig) na'r 'Fro drefol'. Mae cyfradd is hefyd o salwch cyfyngol tymor hir. Serch hynny, mae cyfradd ychydig uwch o achosion cancr.
- O ran mesuriadau blynyddol yn ymwneud ag amddifadedd incwm, mae gwahaniaeth trawiadol rhwng y Fro wledig a'r Fro drefol. Er enghraifft, amcangyfrifir fod 7.5% o boblogaeth y Fro wledig yn dioddef o amddifadedd incwm, o'i gymharu â 16.7% (dros ddwywaith y gyfradd) mewn ardaloedd trefol a 16% yng Nghymru gyfan.
- Yn yr un modd, mae'r Fro wledig yn perfformio'n dda yn nhermau amddifadedd cyflogaeth. Amcangyfrifir fod 5.1% o'r boblogaeth oed gwaith yn derbyn budd-daliadau cyflogaeth, o'i gymharu â 10.4% yn y Fro drefol a 10% yng Nghymru.
- O ran mesuriadau perfformiad addysg, mae'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd gwledig a threfol y Fro yn amlwg. Er nad oes gwahaniaeth mawr mewn cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 2, mae'r bwlch yn ymestyn yng Nghyfnod Allweddol 4 – gyda disgyblion y Fro wledig yn tueddu i gael gwell llwyddiant. Mae ganddynt hefyd lefel absenoldeb mynych.

Mae gwybodaeth arall sydd wedi'i ddiweddaru'n ddiweddar hefyd yn amlinellu canfyddiadau perthnasol:

- Yn ôl data Arolwg Cenedlaethol Cymru,[12] rodd 56% o drigolion Bro Morgannwg yn cytuno gyda'r datganiad eu bod yn teimlo'u bod yn perthyn i'r ardal (cydlyniad cymunedol), fod pobl o wahanol gefndiroedd yn gyrru mlaen yn dda, a'u bod yn trin eu gilydd â pharch.
- O ran cyswllt band eang, mae data diweddaraf Ofcom[13] yn dangos fod gan 95.4% o safleoedd yn y Fro gyfan fynediad posibl at gysylltiad band eang cyflym (uwch na 30 Mbps) yn 2018.

Casgliad cyffredinol y dadansoddiad o'r data cymdeithasol-economaidd sydd ar gael yw fod cymunedau yn y Fro wledig ar y cyfan yn llai difreintiedig na'r ardaloedd trefol.

O ran deall os yw rhai o'r materion cymdeithasol-economaidd a nodwyd yn y SDLl wedi newid yn sgil unrhyw weithgaredd, mae'n rhy gynnar i ddweud. Yn sgil maint a natur y prosiectau a gefnogwyd hyd yma, ni fyddem yn disgwyl i unrhyw newidiadau lefel macro fod wedi digwydd eto mewn amodau cymdeithasol-economaidd.

## 3.2 Cyd-destun polisi sy'n newid

Nid ydym wedi cynnal adolygiad polisi sylweddol fel rhan o'r gwerthusiad canol tymor hwn. Serch hynny, wrth ddiweddaru'r cyd-destun polisi, gwelwyd rhai newidiadau perthnasol gan y gallent greu cyfleoedd i ddatblygu rhagor o weithgareddau peilot wedi'u cefnogi gan LEADER.

---

12 *Ddim yn benodol i'r Fro wledig ond ar lefel awdurdod lleol*

13 *Connected Nations 2018 - Ofcom*

### Dinas-ranbarthau – Prifddinas-ranbarth Caerdydd

Mae Bro Morgannwg yn rhan o Brifddinas-ranbarth Caerdydd. Mae'r Fargen Ddinesig, arwyddwyd ym Mawrth 2017, yn werth £1.2bn, i greu 25,000 o swyddi newydd a denu £4bn o fuddsoddiad sector preifat. Mae iddi bedair thema: Cysylltedd, Sgiliau, Arloesi ac Adfywio a Seilwaith. Mae buddsoddi yn y rhwydwaith ddigidol yn un gangen o weithgaredd allai fod o fudd i Fro Morgannwg, gan fanteisio a gais llwyddiannus Caerdydd i Don 2 y Gronfa Her Ffibr Llawn Lleol (Local Full Fibre Wave 2 Challenge Fund).

Mae dogfen Cronfa Fuddsoddi Ehangach Cynllun Busnes Strategol Prifddinas-ranbarth Caerdydd (2017) yn amlinellu ystod o gyfleoedd buddsoddi yn cynnwys un ar gyfer safleoedd cyflogi strategol a mentrau cludiant. Er mai Caerdydd a choridor yr M4 yw canolbwynt hyn, mae'r Cynllun Busnes Strategol hefyd yn nodi y bydd yn ei ymestyn i gymysgedd o gyfleoedd i goridor Blaenau'r Cymoedd, ardal yr arfordir trefi ac ardaloedd gwledig. Gallai gweithleoedd llai fod yn rhan o hynny. Mae rhaglenni datblygu gwledig yn y Fro eisoes wedi cefnogi datblygu gweithdai gwledig trwy brosiect Gweithdai Gwledig a phrosiect Colabora a byddai'n briodol i ddatblygu hyn ymhellach i roi'r Fro mewn sefyllfa fel dolen ar gyfer manteisio ar Gronfeydd Buddsoddi.

Mae Maes Awyr Caerdydd a Pharth Menter Sain Tathan yn rhan o'r Prifddinas-ranbarth ac yng nghefn gwlad Bro Morgannwg. Gwelwyd y Parth Menter fel cyfle i fanteisio arno trwy fentrau arian LEADER. Yn ein ymgynghoriadau, gwelwyd barn nad oedd y Parth Menter wedi datblygu mor gyflym ag y rhagwelwyd, ac iddi fod yn anodd adnabod cyfleoedd i'r rhaglen LEADER. Mae datblygu cyswllt â phobl dylanwadol a digwyddiadau yn y Parth Menter wedi bod yn her i'r rhaglen. Fel y nodwyd eisoes, tîm datblygu economaidd Cyngor Bro Morgannwg sydd wedi ymgymryd â gwaith datblygu'r Parth Menter felly mae hwnnw'n un o'r prif fentrau sy'n gysylltiedig ag agenda Dinas Caerdydd.

Drwyddi draw, ein barn ni yw nad yw'r cyswllt â Phrifddinas-ranbarth Caerdydd – a ddynodwyd fel blaenoriaeth i'r SDLl – wedi datblygu'n helaeth. Tra bod gan rai o'r gweithgareddau gyswllt anuniongyrchol, ychydig sydd wedi'u hystyried yn uniongyrchol gan y gweithgareddau a ariennir. Gallai hyn fod yn ffocws ar gyfer gweddill y rhaglen. Er enghraifft, mae Cynllun Busnes Strategol Prifddinas-ranbarth Caerdydd yn cyfeirio at ddatblygu Cynllun Buddsoddi Cyrchfan De Ddwyrain Cymru ar gyfer cynnig twristiaeth y rhanbarth, allai gynnwys cynnig antur awyr agored cryf. Gallai rhaglen LEADER edrych i fanteisio ar hynny, ond gan gydnabod mai ein argymhelliad cyffredinol yn yr adroddiad canol tymor hwn yw i'r Grŵp Gweithredu Lleol ystyried cefnogi mentrau sy'n bodoli yn hytrach na buddsoddi mewn mentrau newydd ar hyn o bryd.

### Llesiant a'r Amgylchedd

Mae tair Deddf gan Lywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar wella llesiant tymor hir trigolion Cymru wedi dod i rym ers llunio SDLl Bro Morgannwg.

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Mae hon yn gosod saith nod llesiant[14] er mwyn cael cyrdd cyhoeddus i gydweithio mwy, edrych i'r tymor hir a hyrwyddo dull wedi'i gydlynu o ddarparu gwasanaethau (mae'n nodi pum ffordd o weithio i wneud hyn). Mae pwyslais y Ddeddf ar fwy o gydweithio, integreiddio a chynnwys y gymuned. Mae'r rhain yn debyg iawn i egwyddorion LEADER.
- Deddf Amgylchedd Cymru 2016: Yn debyg iawn, mae ffocws y Ddeddf ar sicrhau gwell integreiddio a dull wedi'i gydlynu i reoli adnoddau mewn dull mwy rhagweithiol, cynaliadwy

---

14 *Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymru syn gyfrifol ar lefel fyd-eang*



ac wedi'i gydlynu'n well, a sefydlu'r fframwaith ddeddfwriaethol angenrheidiol i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015: Yr agwedd fwyaf perthnasol yw'r ffocws ar ddatblygu cynaliadwy ym maes cynllunio a'r angen i ddatblygu prosiectau cynaliadwy. Mae ffocws clir hefyd ar ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r prosiect mapio cymunedol sydd wedi'i chefnogi trwy raglen LEADER yn enghraifft dda o sut mae hyn yn digwydd yn y Fro.

Yn rhannol oherwydd yr uchod, cafodd cronfa Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru ei lansio yn 2018. Mae'r gronfa ar gyfer gweithgareddau perthnasol i'r ddwy Ddeddf gyntaf, gyda ffocws ar gydweithio a gweithgareddau sy'n golygu gwelliant a gwytnwch amgylcheddol. Ein dealltwriaeth yw fod Cyngor Bro Morgannwg wedi cyflwyno cais ir gronfa yn 2018 ar gyfer datblygu llwybrau ceffyl a beicio sydd hefyd yn cynnig coridorau bywyd gwyllt. Eto, gallai cynllun grant o'r fath gynnig cyfle i barhau â phrosiectau peilot LEADER y tu hwnt i'r camau cyntaf e.e. cysylltu gwaith fel Rheini a Phlant Gyda'i Gilydd gyda gweithgareddau awyr agored, llesiant a gwella'r amgylchedd.

Yn ehangach, mae Cynllun Llesiant drafft y Cyngor 2018 -2023 yn amlinellu amcanion sy'n cyd-fynd â rhai o weithgareddau peilot LEADER (caiff Cymunedau Gwledig Creadigol ei enwi fel cyfrannwr o dan bennawd yr economi a'r amgylchedd). Er enghraifft, caiff manteision cymdeithasol ac iechyd antur awyr agored ei archwilio trwy brosiect Gŵyl y Môr.

### Ynni adnewyddol

Cyflwynwyd y Contract Gwahaniaeth[15] yn y DG yn Hydref 2014 i geisio cymryd lle'r system Rhwymedigaethau Adnewyddadwy. Cynlluniwyd y Contract Gwahaniaeth i gefnogi cyflwyno prosiectau adnewyddadwy mawr, dros 5MW. Mae'r Contact Gwahaniaeth yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng pris y farchnad a phris sefydlog y cytunwyd arno. Rhoddir Contractau Gwahaniaeth am gyfnod o 15 mlynedd.

Rhaid i gynhyrchwyr sydd am fod yn rhan o'r cynllun Contact Gwahaniaeth gymryd rhan mewn rowndiau dyrannu. Y technolegau cymwys ar gyfer y cynllun yw: gwynt ar y tir a'r môr, PV solar, rhannau geothermol, ynni dŵr, ynni'r môr (llanw a thonnau), nwy tirlenwi, nwy carthion, treulio anerobig, bionwy, biomas a safleoedd gwres a phŵer cyfunedig.

Ar raddfa lai, cyhoeddodd y llywodraeth y byddai'r tariff cyfenwi trydan, oedd yn brif gynhaliaeth ynni adnewyddadwy cymunedol a domestig, yn cael eu newid yn Ebrill 2019. Yn ei lle, byddai system gwarant cyflenwi (smart export guarantee)[16] lle byddai gofyn i gyflenwyr ynni gynnig taliad i gynhyrchwyr ynni adnewyddadwy bychain oedd yn cyflenwi'r grid.

---

[15] *https://www.gov.uk/government/publications/contracts-for-difference/contract-for-difference*

[16] *https://www.energysavingtrust.org.uk/about-us/news/solar-installation-payback-possible-smart-export-guarantee*

Mae'r llywodraeth yn ceisio canfod ffyrdd o gefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy heb gymorthdaliadau cyhoeddus. Cyhoeddwyd yn 2017 hefyd na fyddai unrhyw gymorthdaliadau newydd tan 2025[17]. Mae angen y dulliau cefnogi hyn i sicrhau gosod gallu cynhyrchu newydd, ac felly helpu gyda'r angen brys i ostwng allyriadau carbon, a chynorthwyo'r symudiad tuag at system drydan mwy clyfar a datganoledig.

Er bod pris masnachol gwynt a solar yn gostwng yn gyflym, mae angen rhywfaint o gefnogaeth gyhoeddus ar gyfer technoleg newydd ac mewn ardaloedd mwy ymylol i helpu i gwrdd ag ymrwymiadau newid hinsawdd.

Un o'r problemau mwyaf yw'r newid cyson mewn polisïau cefnogi – sydd wedi'i gwneud yn anodd iawn i fusnesau bychain, aelwydydd a chymunedau wneud synnwyr o'r tirwedd a phenderfynu buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

### Newid Hinsawdd

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad diweddaraf yr IRCC yn 2018, mae'n amlwg fod y risgiau sydd ynghlwm wrth newid hinsawdd yn fwy na'r hyn a ystyriwyd yn flaenorol. Nododd yr adroddiad fod llai na 12 mlynedd i gadw cyfartaledd y cynnydd mewn tymheredd i 1.5oC neu lai. Roedd nifer o wyddonwyr yn meddwl fod hynny'n amcangyfrif rhy isel, ac mae data diweddarach yn cyfeirio at gyflymu tueddiadau cynhesu byd-eang. Mae hyn wedi gweld newid sylweddol yn agwedd y cyhoedd, gyda phrotestiadau'r Gwrthryfel Difodiant yn arwydd gweledol o'r newid.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd yn Ebrill 2019[18]. Mae nifer o gynghorau Cymru hefyd wedi nodi eu bwriad o fod yn ddi-garbon erbyn 2030; a chafwyd deiseb[19] i annog Cyngor Bro Morgannwg i ddatgan bod argyfwng hinsawdd. Gwnaed hynny trwy benderfyniad yng nghyfarfod y Cyngor ar 29 Gorffennaf 2019.

Rydym yn gwybod fod Cymunedau Gwledig Creadigol yn dda am wneud cysylltiadau rhwng gweithgareddau a mentrau. Rydym yn tynnu sylw at y newidiadau polisi hyn i nodi newidiadau allweddol allai gynnig cyfle i gysylltu â phrosiectau peilot LEADER. Mae enghreifftiau o'r cysylltiadau a wnaed/hwyluswyd gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn cynnwys:

- Aeth y Cwmni Masnachol Arlwyo Ysgolion newydd i ddigwyddiad Cyswllt Bwyd y Fro – cysylltu â'r agenda llesiant a Deddf Cenedlethau'r Dyfodol – gan gynnig cyfle i greu cyswllt â darparwyr lleol. Roedd gan y digwyddiad gyswllt cryf gyda Thîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro.
- Tynnwyd nifer o gyrchfannau tripiau ysgol at ei gilydd gan Gymunedau Gwledig Creadigol i archwilio sut i gydweithio i ddarparu cynnig tripiau ysgol wedi'i frandio yn y Fro.
- Cynhaliodd Cymunedau Gwledig Creadigol gyfres o gyfarfodydd rhwydweithio i dynnu crefftwyr o'r ardal at ei gilydd i weld os oedd ganddynt ddiddordeb mewn cydweithio.

## 3.3 Safbwyntiau ansoddol ar newidiadau perthnasol i flaenoriaethau'r SDLl

Mae'r cyfweliadau wedi holi os yw'r blaenoriaethau yn y SDLl yn parhau'n berthnasol, neu oes angen eu newid. Y consensws cyffredinol oedd nad oedd neb yn teimlo nad oeddynt bellach yn faterion pwysig ar gyfer y dyfodol. Roedd yr ymatebion yn nodi eu bod yn dal yn faterion pwysig i ymdrin â hwy (er gydag ambell gafeat).

---

17 *http://www.energylivenews.com/2017/11/23/budget-2017-no-subsidies-for-green-energy-until-2025/*

18 *https://seneddresearch.blog/2019/05/09/wales-declares-a-climate-emergency/*

19 *https://you.38degrees.org.uk/petitions/climate-emergency-time-for-action*

Cafwyd nifer fechan o sylwadau am ddefnydd a sut cyflwynwyd y SDLl, yn hytrach na'i gynnwys. Roeddynt yn cynnwys:

- Sylw nad yw'r SDLl wastad yn gweithredu fel dogfen arweiniol/cyfeirio wrth drafod gweithgareddau i'w cefnogi
- Yn hytrach, rhoddir mwy o bwyslais neu cyfeirir mwy at bum blaenoriaeth Cynllun Datblygu Gwledig Cymru. Y cwestiwn felly yw os yw'r pwyslais lleol y mae'r SDLl i fod i'w roi yn cael ei wanhau neu ei golli. O safbwynt ehangach, a yw hynny hefyd yn cwestiynu'r egwyddorion sy'n sail i raglen LEADER. Serch hynny, fel y nodwyd eisoes, mae amcanion y SDLl wedi'u rhannu rhwng themâu Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, ac yn cael eu cyflwyno felly. Mae'r pwynt felly am bwyslais yn hytrach na sylw.
- Roedd cydnabyddiaeth nad oedd y ffocws ar ynni gwyrdd/adnewyddadwy wedi'i ddatblygu yn ôl y bwriad, ac iddi fod yn anodd cael digon o ddiddordeb/galw i barhau â gweithgareddau
- Yn yr un modd, roedd rhai rhanddeiliaid yn ansicr am sut y byddai'r Fro wledig yn cael ei chynnwys yn agenda Prifddinas-ranbarth Caerdydd. Tra bod trafodaethau wedi digwydd – y tu allan i raglen LEADER – ar lefel strategol, roedd yn anodd gweld sut y byddai gweithgaredd sy'n cael ei arwain gan y gymuned yn gallu dylanwadu ar yr agenda. Roedd syniad fod agenda Prifddinas-ranbarth Caerdydd yn ymwneud â phrosiectau seilwaith mawr, ac nad oedd yn berthnasol i ddull LEADER.

Mae'r sylwadau hyn yn ymwneud llai ag os yw'r SDLl yn gosod y blaenoriaethau iawn, a mwy am ddealltwriaeth a hyrwyddo yr hyn y gellir ei wneud. Y prif fater sydd wedi codi o'r gwerthusiad yw faint mae'r SDLl yn gweithredu fel dogfen i arwain penderfyniadau lleol. Mae'r Tabl Rhesymeg Ymyrraeth sy'n cael ei gyflwyno a'i drafod yng nghyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Lleol yn canolbwyntio mwy ar bum thema Cynllun Datblygu Gwledig Cymru. Er bod amcanion y SDLl wedi'u cynnwys, mae llai o bwyslais arnynt.

## 3.4 Cysylltiadau rhwng prosiectau LEADER a ariennir a'r cyd-destun polisi ehangach

Wrth adolygu prosiectau ar gyfer y gwerthusiad hwn, rydym wedi edrych ar ffurflenni cais prosiectau gan weld fod gofyn i ymgeiswyr gyfeirio at brosiectau a strategaethau eraill (Adran 6). Ein barn fod lefel y manylder yn yr adran hon yn gymysg. Y ceisiadau cryfaf yw'r rhai lle mae cyswllt positif yn cael ei wneud â themâu neu flaenoriaethau penodol, ynghyd ag esboniad o sut gallai'r weithgaredd gyfrannu at y blaenoriaethau strategol hynny (yn hytrach na rhestr o strategaethau lle mae cyswllt).

Yn ein barn ni, byddai'n fanteisiol i brosiectau amlinellu agweddau galluogi eu gweithgareddau arfaethedig yn well yn erbyn strategaethau sy'n bodoli neu'n amlygu – y gadwyn resymeg.

O'n cyfweliadau â rhanddeiliaid ac arweinwyr prosiectau, mae'n amlwg fod dealltwriaeth fod eu prosiectau'n cyfrannu tuag at ddatblygiadau ehangach e.e. y Ddeddf Llesiant, ond nid oedd hyn o anghenraid yn cael ei arddangos yn gynhwysfawr neu'n gyson yng nghynigion y prosiectau.

## 3.5 Goblygiadau ar gyfer y SDLl a'i gyflawni

Mae ein hadolygiad o'r dystiolaeth a'r polisi wedi dynodi un ffactor allai olygu newid cyfeiriad ar gyfer gweddill y rhaglen – sef newid hinsawdd. Os yw'r Fro wledig am chwarae ei ran yn lliniaru neu addasu i'r newid hinsawdd, efallai bydd angen ystyried sut mae'n ymateb yn lleol. Gan fod Cyngor Bro Morgannwg wedi datgan Argyfwng Hinsawdd, byddai'n briodol i'r Grŵp Gweithredu Lleol ystyried sut i ymateb i hynny.

Mae'r adolygiad o'r data/tystiolaeth yn atgyfnerthu'r sefyllfa sy'n wynebu'r Fro wledig, er yn cydnabod nad yw rhai o'r problemau cymdeithasol-economaidd (drwyddi draw) mor amlwg ag mewn ardaloedd LEADER eraill. Atgyfnerthir hyn gan adborth ansoddol o'n cyfweliadau, lle gwelir fod blaenoriaethau'r SDLl yn dal yn berthnasol a ddim angen eu newid.

Mae'r adolygiad polisi yn gweld fod cyfleoedd pellach yn codi yn sgil polisïau newydd (e.e. Prifddinas-ranbarth Caerdydd a'r Ddeddf Llesiant) ond rydym hefyd yn teimlo fod y Grŵp Gweithredu Lleol a Chymunedau Gwledig Creadigol yn gwbl ymwybodol o'r cyfleoedd hyn. Mae'r newid yn yr amgylchedd polisi yn pwysleisio'r angen am integreiddio ar draws meysydd polisi. Yn hynny o beth, teimlwn fod potensial i hyn ddigwydd yn ehangach trwy'r rhaglen.

Mae'r adran hon wedi'i strwythuro o amgylch cwestiynau'r briff gwerthuso, sy'n cael eu hymestyn yn bellach yn y fframwaith gwerthuso.

### 4.1 Effeithlonrwydd gweithgaredd LEADER yn cyfrannu at amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol:

Mae'r adborth a dderbyniwyd trwy'r gwerthusiad wedi nodi fod gweithgaredd y prosiect yn chwarae rôl ddefnyddiol yn cyfrannu tuag at amcanion y SDLl. Serch hynny, mae cwestiwn am rôl amcanion y SDLl wrth i'r Grŵp Gweithredu Lleol wneud penderfyniadau. Mae cynigion prosiect a'r broses gymeradwyo yn tueddu mwy tuag at bum thema Cynllun Datblygu Gwledig Cymru nag amcanion y SDLl. Er enghraifft, mae strwythur is-grwpiau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn cyd-fynd â themâu Cynllun Datblygu Gwledig Cymru. Er ei bod yn glir fod amcanion y SDLl yn cael eu cyflawni trwy fapio/cysylltu â themâu Cynllun Datblygu Gwledig Cymru – nid ydynt o anghenraid yn cyd-fynd yn gyfan gwbl. Mae gennym ddau sylw:

- Os yw'r safbwynt lleol penodol yn cael ei wanhau. Egwyddor rhaglen LEADER drwyddi draw yw ceisio cyflawni amcanion sy'n cael eu gosod yn lleol – sy'n cael eu diffinio trwy'r SDLl. Er bod blaenoriaethau/themâu ehangach Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yn bwysig, mae cwestiwn os y dylai amcanion y SDLl fod wedi cael rôl mwy canolog yn penderfynu ar weithgareddau – gan gydnabod fod y Tabl Rhesymeg Ymyrraeth yn cynnig cyswllt rhwng y SDLl a themâu Cynllun Datblygu Gwledig Cymru. Mae ffurflenni cynigion y prosiect yn gofyn i ymgeiswyr ddangos sut mae eu gweithgaredd arfaethedig yn cyflawni yn erbyn themâu'r SDLl, a hyn sydd â'r pwyslais mwyaf yn y broses werthuso. Felly mae proses/strwythur i arwain gweithgareddau'r prosiect, ac i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amcanion y SDLl, ond rydym yn dal i gwestiynu'r 'berthynas' rhwng themâu Cynllun Datblygu Gwledig Cymru ac amcanion penodol y SDLl.

Mae cyflwyno tîm datblygu economaidd i'r Cyngor (sydd â ffocws trefol) wedi golygu ei fod wedi canolbwyntio ar rai mentrau/gweithgareddau yn y SDLl sy'n berthnasol i'w amcanion. Er enghraifft, y Parth Menter yn Sain Tathan. Mae'r rhain felly wedi dod yn llai o flaenoriaeth i'r Grŵp Gweithredu Lleol/Cymunedau Gwledig Creadigol. Tra bo gweithredu yn erbyn yr elfennau hynny o'r SDL (PR2), nid yw hynny yn bennaf trwy'r Grŵp Gweithredu Lleol/Cymunedau Gwledig Creadigol, gan felly leihau sgôp ei effaith.



## 4.2 Pa mor addas yw'r model cyflawni ar gyfer Bro Morgannwg wledig

Caiff rhaglen LEADER y Fro wledig ei darparu gan y Grŵp Gweithredu Lleol – gan weithredu fel corff gorolwg strategol – a thîm Cymunedau Gwledig Creadigol. Mae Cymunedau Gwledig Creadigol yn fudiad 'hyd braich' i Gyngor Bro Morgannwg (o ran cyflawni), er bod staff Cymunedau Gwledig Creadigol yn cael eu cyflogi gan y Cyngor a'u rheoli gan Dîm Adfywio'r Cyngor. Trwy'r gwerthusiad hwn, bu'n glir fod Cymunedau Gwledig Creadigol yn gweithio'n glos gyda chydweithwyr o fewn y Cyngor i ddatblygu a gyrru gweithgareddau mlaen lle bo hynny'n briodol. Serch hynny, mae ganddynt gryn dipyn o annibyniaeth ac yn cael eu hystyried yn agos at y gymuned. Roedd nifer o'r mudiadau allanol yn gweld gwahaniaeth rhwng y Cyngor a Chymunedau Gwledig Creadigol, a bod hynny'n bwysig.

Teimlwn ei bod yn bwysig ar gyfer cyflawniad y rhaglen fod Cymunedau Gwledig Creadigol yn ei gyrru, fel corff cymharol annibynnol. Mae'r gorolwg strategol gan y Grŵp Gweithredu Lleol wedi cydweddu â gweithgaredd Cymunedau Gwledig Creadigol. Teimlwn hefyd ei bod yn fanteisiol fod gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol hefyd berthynas agos â'r Cyngor. Mae yn fanteisiol mewn sawl ffordd yn cynnwys gwedd strategol gweithgareddau arfaethedig, trafodaethau am gynaliadwyedd/prif-ffrydio tymor hir, ac alinio â dulliau cefnogi eraill y Cyngor.

## 4.3 Asesu'r arloesi mewn prosiectau a ariennir

Ein barn ni yw mai un o ganlyniadau'r cyfyngiadau llymach o fewn y rhaglen gyfredol yw arwain at geisio atebion mwy arloesol i ymdrin â materion a ddynodwyd yn y SDLl. Mae llawer o'r arloesi wedi'i yrru gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol. Mae nifer o enghreifftiau o weithgareddau y gellid eu hystyried yn arloesol a newydd. Mae'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi bod yn agored – trwy weithgareddau peilot a dichonolrwydd – i archwilio gwahanol ffyrdd o ymdrin â hen broblemau. Er enghraifft, mae'r prosiect Teithiau Ysgolion wedi datblygu ateb allai gael ei ystyried yn un newydd o'i gymharu â chefnogi pob mudiad yn unigol, trwy ddod â mudiadau ynghyd a darparu'r adnoddau cefnogi. Gallai hyn gael budd tymor hir o ran cynaliadwyedd y cynnig, yn hytrach na bod yn ddull mwy darniog.

Mae'r cyfleoedd sydd wedi codi hefyd wedi gyrru'r angen i fod yn arloesol. Mae'r Gadwyn Gyflenwi Arlwyo Ysgolion yn un enghraifft. Gydag arlwyo ysgolion yn cael ei ddarparu trwy Gwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol (yn hytrach na'r Cyngor yn uniongyrchol) mae'n cwympo y tu allan i reolau caffael yr UE. Mae hyn yn rhoi cyfle i roi mwy o bwyslais ar gyflenwyr bwyd a diod lleol mewn cytundebau arlwyo. Gwelodd tîm Cymunedau Gwledig Creadigol – gan weithio gyda'r Rheolwr Arlwyo – hyn fel cyfle i gryfhau'r sector bwyd a diod lleol yn y Fro wledig. Edrychodd astudiaeth dichonolrwydd a ariannwyd trwy'r rhaglen os fyddai'r amcan o sefydlu perthynas gynaliadwy tymor hir gyda chyflenwyr lleol yn ymarferol. Fel un o'r Cwmnïau Masnachu Awdurdod Lleol cyntaf i'w sefydlu, mae cyfle i'r Fro fod yn wirioneddol arloesol yn y modd mae'n hwyluso sicrhau cyfran uwch o arlwyo ysgolion gan gyflenwyr lleol. Bydd y statws masnachu newydd yn caniatáu i'r Cwmni Masnachu i ddefnyddio hyd at 20% o gyfanswm ei refeniw ar weithgaredd er elw, megis arlwyo mewn digwyddiadau lleol. Gallai'r berthynas sydd eisoes yn dechrau ffurfio â chyflenwyr lleol (e.e. Ty Tanglwyst Dairy) gynnig cyfleoedd masnachol pwysig i'r cyflenwyr hynny.

Teimlwn fod y Fro wledig wedi arddangos ei hun fel lle sy'n ystyried atebion arloesol a newydd. Mae gan y Grŵp Gweithredu Lleol agwedd dda tuag at risg yn hynny o beth, gan ddeall na fydd pob gweithgaredd yn arwain ar ganlyniad llwyddiannus. Trwy fod angen ariannu gweithgareddau dichonolrwydd/peilot (oherwydd cyfyngiadau yn y rhaglen gyfredol) a hefyd gweithredu ar raddfa lai (oherwydd cyllideb lai) mae strwythur y rhaglen gyfredol wedi caniatáu iddynt gymryd y risgiau hyn.

## 4.4 Pa mor addas yw'r gweithgareddau a ariannwyd trwy'r Strategaeth Datblygu lleol i'w prif-ffrydio

Ein dealltwriaeth yw fod y potensial i'r gweithgaredd gael ei brif-ffrydio yn cael ei ystyried yn y drafodaeth gychwynnol. Un canlyniad posibl fyddai prif-ffrydio gweithgaredd trwy wasanaethau Cyngor Bro Morgannwg. Mae Adran 11 y ffurflen cynnig prosiect yn gofyn i ymgeiswyr amlinellu sut y bydd y weithgaredd a ariennir yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Mae enghreifftiau o brosiectau a ariannwyd trwy'r rhaglenni presennol a blaenorol sydd wedi cael eu hintegreiddio i wasanaethau'r Cyngor – y mwyaf amlwg yw'r gweithgareddau twristiaeth o dan faner Ymweld â'r Fro e.e. Teithiau Ysgol, Arfordir Treftadaeth a Phawennau yn y Fro. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal am rai o brosiectau'r rhaglen gyfredol – e.e. mapio cymunedol – i weld os oes modd eu prif-ffrydio.

Mae'n bwysig nodi, gan fod llawer o'r pwyslais yn y rhaglen gyfredol wedi bod ar waith peilota a dichonolrwydd, nad yw bob amser yn bosibl (nac yn addas) i gynigion prosiect ystyried os gellir prif-ffrydio gweithgareddau yn y tymor hir. Nid yw'n bosibl ystyried potensial tymor hir gweithgaredd o ddifri tan fod canlyniad y gwaith peilota a dichonolrwydd yn hysbys.

Serch hynny, ar gyfer gweddill rhaglen, byddai cefnogi prosiectau i ystyried cynaliadwyedd a phrif-ffrydio yn fanteisiol. Gallai hynny fod ar ffurf pecyn cymorth i'w ddefnyddio ym mhob prosiect (ond gan gydnabod nad yw'r holl randdeiliaid yn gweld gwerth pecynnau cymorth bob amser).

Mae hyn yn hynod berthnasol o ystyried fod rhanddeiliaid a phartneriaid yn gweld llai o lwybrau dilyniant i brosiectau y tu hwnt i'r cam dichonolrwydd yn strwythur y rhaglen gyfredol. Mae colli'r rhaglen gyfalaf Axis 3 oedd yn gweld dylanwad lleol (gyda'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig sy'n cael ei rheoli'n ganolog yn cymryd ei lle) wedi cyfyngu'r dewisiadau i brosiectau symud i'r cam datblygu nesaf. Er nad yw hyn yn berthnasol i bob prosiect o anghenraid – gan fod llawer angen cyllid refeniw yn hytrach na chyfalaf i ddatblygu – gallai fod yn broblem i rai gweithgareddau.

## 4.5 Y graddau mae prosiectau'n cynnwys y Themâu Trawsbynciol wrth gyflawni'u gweithgareddau

Unwaith eto, fel rhan o'r ffurflen cynnig prosiect, gofynnir i ymgeiswyr sut y bydd y weithgaredd arfaethedig yn cyd-fynd â themâu trawsbynciol o hyrwyddo cyfle cyfartal yn cynnwys yr iaith Gymraeg, datblygu cynaliadwy ac ymdrin â thlodi a chynhwysiant cymdeithasol. Caiff hyn ei ystyried fel rhan o'r gwerthusiad gan is-grŵp perthnasol y Grŵp Gweithredu Lleol. Mae angen cynhyrchu mwyafrif y deunyddiau'n ddwyieithog. Ein sylw yma yw nad yw'r themâu trawsbynciol yn cael eu gweld fel meini prawf penodol ar gyfer y broses werthuso, ond yn rhan o ystyriaeth ehangach ar os yw'r prosiect yn cyflawni amcanion y SDLl. Sylw pellach yw bod yr adran ar themâu trawsbynciol yn cynnwys gwahanol lefel o fanylion gan yr ymgeiswyr.

Ein barn yw fod nifer o'r gweithgareddau a ariennir gan y rhaglen gyfredol yn rhoi pwyslais ar wella cynhwysiant cymdeithasol mewn cymunedau gwledig. Mae prosiectau fel gweithgareddau rhieni a phlant, y rhwydwaith crefftau, a thyfu ysbryd cymunedol oll yn cynnig cyfleoedd rhwydweithio i sectorau o'r gymuned sydd angen cefnogaeth.

## 4.6 Os ac i ba raddau mae'r Strategaeth Datblygu Lleol yn dal yn berthnasol i amgylchiadau cymdeithasol-economaidd yr ardal

Fel rhan o'r gwerthusiad, rydym wedi cynnal ail-ddadansoddiad cryno o nodweddion cymdeithasol-economaidd y Fro wledig, gan gydnabod na fydd amodau cymdeithasol-economaidd wedi newid llawer ers llunio'r SDLl yn 2014 a chydnabod hefyd fod y Fro wledig yn ardal gymharol gyfoethog. Trafodir hyn yn fras yn Adran Tri. Ein barn ni yw nad oes newid arwyddocaol wedi bod i gwestiynu dilysrwydd blaenoriaethau'r SDLl.

## 4.7 Casgliadau

Mae ein casgliadau wedi'u cyflwyno'n defnyddio dull 'goleuadau traffig'.

| | |
|---|---|
| Cyfraniad tuag at amcanion y SDLI | Mae'r gweithgareddau'n cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y SDLI. Serch hynny, nid yw'r broses gwneud penderfyniadau i weld yn eu hystyried yn benodol – yn hytrach, mae'n seiliedig ar bum thema Cynllun Datblygu Gwledig Cymru. Mae rhai o flaenoriaethau'r SDLI yn cael eu datblygu y tu allan i raglen LEADER, y rhai amlycaf yn ymwneud ag agenda Prifddinas-ranbarth Caerdydd, megis Parth Menter Sain Tathan. Gallai fod yn ddefnyddiol edrych ar y gweithgareddau hynny i ddeall cyflawniad blaenoriaethau'r SDLI yn llawn. |
| Pa mor addas yw model cyflawni LEADER | Mae atebion arloesol i anghenion datblygu gwledig yn cael eu datblygu, gyda thîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn bennaf yn gyrru hyn |
| Arloesi mewn prosiectau a ariennir | O ran targedau allbwn, mae'n glir fod y rhaglen eisoes wedi mynd y tu hwnt i bron pob un o ddangosyddion y rhaglen. Mae hyder y bydd yr holl dargedau wedi'u cyflawni erbyn diwedd y rhaglen. Serch hynny, teimlwn fod angen cwestiynu pa mor ddefnyddio oedd y dangosyddion ar gyfer deall effaith y rhaglen. Wrth gydnabod fod ffyrdd eraill o ddeall yr effaith – er enghraifft gwerthuso prosiectau unigol a'r ymarfer hwn ar lefel rhaglen – byddai wedi bod yn ddefnyddiol i gasglu gwybodaeth ychwanegol y tu hwnt i'r dangosyddion perfformiad. |
| Pa mor addas ar gyfer prif-ffrydio | Mae sicrhau cynaliadwyedd tymor hir prosiectau yn ystyriaeth, ond gall fod yn rhy gynnar i farnu gan mai prosiectau peilot ydynt. Serch hynny, gan fod nifer o brosiectau wedi/yn cael eu cynnal, byddai mwy o ffocws ar gefnogi cynaliadwyedd/prif-ffrydio yn fuddiol. Mae'n debygol na fydd rhai o'r prosiectau a ariennir trwy'r rhaglen yn arwain at ganlyniad cynaliadwy. Serch hynny, ni ddylid gweld hynny fel canlyniad gwael, gan mai hynny yw amcan gweithgaredd peilota/dichonolrwydd. |
| Integreiddio themâu trawsbynciol | Mae themâu trawsbynciol yn cael eu hintegreiddio i weithgareddau prosiectau (er nad yw pob prosiect yn eu cyflawni i gyd). |
| Pa mor berthnasol yw'r SDLI | Mae blaenoriaethau'r SDLI yn parhau'n ddilys gan nad yw'r amgylchiadau cymdeithasol-economaidd wedi gweld newid arwyddocaol. Mae rhai newidiadau wedi bod i'r amgylchedd polisi ers i'r SDLI gael ei datblygu yn 2014 – yn fwyaf amlwg gyda'r ffocws cynyddol ar lesiant o fewn polisi Llywodraeth Cymru. Serch hynny, teimlwn fod amcanion y SDLI yn cyd-fynd yn rhesymol â hynny. |

**Gwych** – Hyder mawr y bydd yn cwrdd ag amcanion y rhaglen

**Boddhaol** – Hyder da y bydd yn cwrdd ag amcanion y rhaglen

**Gwael** – hyder prin y bydd yn cwrdd ag amcanion y rhaglen

## 5. Cynnydd tuag at Dargedau Gwariant ac Allbwn y SDLl - *effeithlonrwydd*

Mae'r adran hon yn edrych ar gynnydd hyd yma yn erbyn dangosyddion cyllideb ac allbwn y SDLl, gan ddefnyddio gwybodaeth fonitro Cymunedau Gwledig Creadigol a gwybodaeth arall o adolygu'r dogfennau.

### 5.1 Cynnydd gyda Gwariant

Mae'r wybodaeth fonitro ddiweddaraf gan Cymunedau Gwledig Creadigol (hyd at y chwarter yn gorffen ym Mehefin 2019) yn dangos fod tua 68.0% o'r gyllideb wedi'i gwario hyd yma. Mae'r dadansoddiad ar gyfer pob cangen i'w weld isod:

| | Cyllid Cynllun Datblygu Gwledig Cymru | Cyfanswm y Gyllideb | Cyllid wedi'i ymrwymo | Gwariant hyd yma (Mehefin 19) | % o'r Gyllideb wedi'i ymrwymo | % o'r Gyllideb wedi'i wario |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredu | £1,296,748 | £1,620,935 | £1,311,802 | £986,417 | 80.9% | 60.9% |
| Bywiocau | £273,000 | £273,000 | £273,000 | £183,338 | 100% | 67.2% |
| Gweinyddu | £182,000 | £182,000 | £182,000 | £117,096 | 100% | 64.3% |
| Cydweithio | £68,249 | £85,312 | £36,135 | £8,129 | 42.4% | 9.5% |
| **CYFANSWM **** | **£1,819,997** | **£2,616,247** | **£1,802,217** | **£1,294,891** | **84.4%** | **68%** |

Ar lefel fwy manwl, gellid dadansoddi hyn ymhellach mewn ffordd wahanol, fel y gwelir isod:

| | Cyllideb | Elfen Grant RDP | Wedi'i Ymrwymo | Wedi'i Wario | Heb ei Ddyrannu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllid a Gweinyddiaeth y Grŵp Gweithredu Lleol** | £182,000 | £182,000 | £182,000 | £117,095 | £0 |
| **Bywiocau - Grŵp Gweithredu Lleol** | £273,000 | £273,000 | £273,000 | £183,338 | £0 |
| **Gweithredu - Grŵp Gweithredu Lleol** | | | | | |
| Costau Staff (yn cynnwys AD a Mamolaeth sydd ddim yn cynnwys costau ychwanegol o 15%) | £901,637 | £721,310 | £746,637 | £605,304 | £155,000 |
| Grantiau'r Grŵp Gweithredu Lleol | £200,000 | £160,000 | £138,399 | £42,884 | £61,600 |
| Marchnata Prosiectau'r Grŵp Gweithredu Lleol | £16,000 | £12,800 | £14,526 | £14,526 | £1,474 |
| Cyllideb Comisiynu'r Grŵp Gweithredu Lleol | £373,318 | £298,654 | £304,789 | £235,086 | £68,529 |
| Cyfradd Safonol (costau ychwanegol o 15%) | £129,980 | £103,984 | £106,730 | £88,617 | £23,250 |
| **Cyllideb Cydweithio'r Grŵp Gweithredu Lleol** | £85,312 | £68,249 | £36,135 | £8,129 | £49,177 |
| **CYFANSWM **** | **£2,161,247** | **£1,819,997** | **£1,802,216** | **£1,294,979** | **£359,030** |

*** Efallai nad yw'r cyfansymiau'n cyd-fynd yn llwyr oherwydd rowndio*

Mae nifer o bwyntiau diddorol i'w gweld o'r proffil dyrannu/gwariant:

- Mae lefel y gwariant ar brosiectau grant yn erbyn cyllid sydd wedi'i ymrwymo/dyrannu yn gymharol isel. Hyd yma, dim ond 30.9% o'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu sydd wedi'i wario. Mae ystyried prosiectau sydd wedi'u comisiynu'n uniongyrchol a phrosiectau grant yn cynyddu hyn i 62.7%. Ein dealltwriaeth yw fod yr agwedd hon ar gyllid y rhaglen yn cynnig yr heriau mwyaf. Weithiau, mae diffyg eglurder am wariant prosiectau, a thra disgwylir i wariant gyflymu dros weddill y rhaglen, mae posibilrwydd hefyd y bydd yn rhaid dychwelyd rhywfaint o'r gwariant. Mae hyn eisoes yn digwydd. Canlyniad hyn yw fod y ffigwr cyllid heb ei ddyrannu yn newid. Mae tîm Cymunedau Gwledig Creadigol wedi gweithio'n galed i ddeall lefel yr hyder yn ymwneud â gwariant prosiect – gan weithio'n glos ag ymgeiswyr y prosiectau – ond mae posibilrwydd yn parhau bydd rhagor o gyllid heb ei wario yn cael ei ddychwelyd i'r rhaglen i'w wario yn rhywle arall. Bydd hyn yn parhau yn ystyriaeth i'r Grŵp Gweithredu Lleol.
- Mae'n berthnasol hefyd i grybwyll gwariant yn erbyn gweithgareddau cydweithio. Rydym yn ymwybodol fod Grŵp Gweithredu Lleol Bro Morgannwg, trwy Gymunedau Gwledig Creadigol, wedi bod yn gysylltiedig â phrosiect CoLabora – gan ganolbwyntio ar greu mannau gweithio ar y cyd. Mae'r gwariant ar y gangen Cydweithio wedi bod yn gyfan-gwbl ar y prosiect hwn, ac yn isel (gweler y sylw isod ar y cynlluniau i ymestyn gweithgaredd).
- Fel y nodwyd eisoes, o ystyried model cyflwyno'r rhaglen bresennol – ym mhob ardal LEADER yng Nghymru – mae pwyslais ar waith darparu a chefnogi gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol. Dyma'r dull/model a luniwyd gan Lywodraeth Cymru ac a fabwysiadwyd yn lleol. Fel sydd wedi'i nodi, mae hyn yn gweithio'n dda. Un canlyniad i'r model cyflwyno hwn yw fod cyfran lai o'r gyllideb drwyddi draw yn mynd yn uniongyrchol i weithgareddau prosiect, e.e. mudiadau allanol. Er enghraifft, gan gyfeirio at y tabl uchod, dim ond 24.6% o gyfanswm y gyllideb sydd wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau (wedi'u comisiynu neu eu cefnogi'n ariannol). Mae hyn yn cynyddu i 26.6% wrth gynnwys prosiectau cydweithio. Mae costau staff ar gyfer y gangen Gweithredu yn 41.4% o'r gyllideb sydd wedi'i hymrwymo. Mae'n bwysig nodi fod nifer o brosiectau wedi bod angen llawer o gefnogaeth gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol, gan nad yw'r cyfnodau peilot wedi bod yn ddigon hir i ddatblygu'r gallu angenrheidiol o fewn mudiadau/rhwydweithiau, a bod hynny wedi golygu bod angen mwy o amser staff Cymunedau Gwledig Creadigol. Gellid nodi'r Rhwydwaith Grefftau fel enghraifft o hynny.
- Mae cymhareb cyllideb staff a chyllideb uniongyrchol i brosiectau (comisiynu a chefnogaeth ariannol) yn tua 1.4:1 wrth ystyried y canghennau Gweithredu a Chydweithio.

Mae'n bwysig pwysleisio fod y gyllideb gweithredu yn cynnwys costau staff Cymunedau Gwledig Creadigol yn arwain prosiectau'n uniongyrchol neu'n gweithio â grwpiau llywio prosiectau ac eraill yn ogystal â chostau uniongyrchol prosiectau (wedi'u caffael neu gomisiynu). Mae costau uniongyrchol staff Cymunedau Gwledig Creadigol yn tua 67% o'r gwariant gweithredu hyd yma[20]. Mae hyn yn lefel mewnbwn sylweddol. Serch hynny, Cymunedau Gwledig Creadigol yw'r ymgeiswyr yn aml, ac yn ymgymryd â holl waith rheoli contractau astudiaethau, a gweithio gyda grwpiau llywio a phartneriaid eraill.

O'n trafodaethau gyda Chymunedau Gwledig Creadigol, mae'n glir fod gweithio gyda'r Grŵp Gweithredu Lleol a grwpiau lleol i ddatblygu syniadau prosiect, ac yna eu darparu yn golygu llawer o waith. Yn wir, yr anhawster i 'gamu o'r neilltu' gyda rhai gweithgareddau yn golygu fod

[20] *Sylwer fod y gost yn cynnwys costau ychwanegol cyflogi staff (Yswiriant Gwladol ac ati) ond ddim yn cynnwys cyfradd costau ychwanegol o 15%.*

mwy o amser staff yn cael ei roi i brosiect nag y rhagwelwyd yn wreiddiol. Un o'r prif faterion a godwyd yn y gwerthusiad oedd a yw'r anhawster camu nôl – i brosiectau barhau yn annibynnol oddi wrth Gymunedau Gwledig Creadigol – yn cyfyngu ar adeiladu arbenigedd neu'n rhannu gallu yn ehangach.

Mae gwybodaeth ariannol gan Gymunedau Gwledig Creadigol yn dangos fod £309,853 heb ei glustnodi yn y gyllideb Gweithredu (sy'n cyfateb i tua £247,882 o gyllid Cynllun Datblygu Gwledig Cymru) a £49,177 yn y gyllideb Cydweithio (tua £39,341 o gyllid Cynllun Datblygu Gwledig Cymru). Serch hynny, nid yw hyn yn cynnwys cynigion prosiect a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Grŵp Gweithredu Lleol ym mis Gorffennaf 2019, lle'r oedd un yn ymwneud ag ymestyn prosiect cydweithio CoLobora sydd â'r potensial i ddefnyddio rhywfaint o'r gyllideb honno.

Hyd yma, mae'r gweithgaredd yn y Cydweithio wedi canolbwyntio ar brosiect CoLabora yn bennaf. Mae hon yn brosiect rhyng-genedlaethol i archwilio manteision economaidd creu safleoedd gweithio ar y cyd mewn ardaloedd gwledig ac i gael gwell dealltwriaeth o arfer da o ran sefydlu a gweinyddu safleoedd gweithio ar y cyd. Mae rhaglen LEADER Bro Morgannwg yn un o 7 partner sy'n rhan o'r prosiect. Mae ychydig dan 50% o'r gyllideb cydweithio wedi cael ei chlustnodi ar gyfer y prosiect, er bod y gwariant yn arafach/llai na'r disgwyl.

Rydym yn deall fod cynnig am brosiect yn cael ei gynnig i'w gymeradwyo gan y Grŵp Gweithredu Lleol ym mis Gorffennaf i ymestyn y prosiect i beilota safle gweithio ar y cyd yn y Fro. Gallai hyn ddefnyddio cyfran helaeth o'r gyllideb sydd ar ôl. Mae disgwyl i brosiect arall, llai, yn canolbwyntio ar ddosbarthu a derbyn adborth am y syniad i gael cegin fasnachol i'w rhannu, dynnu swm bychan o'r gronfa cydweithio, eto yn ddibynnol ar gymeradwyaeth gan y Grŵp Gweithredu Lleol. Mae hon yn brosiect cydweithio ar draws ardaloedd LEADER de a dwyrain Cymru.

Mae'r adolygiad o ddyraniad y cyllid hyd yma yn dangos fod y rhaglen yn dilyn y cynllun, ar y cyfan, i gwrdd â'r broffil gwario. Mae'r ffaith fod 77.3% o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer cefnogi prosiectau wedi cael ei glustnodi/dyrannu (neu 96.6% o gyllid Cynllun Datblygu Gwledig Cymru), gyda £103,129 ar ôl, yn rhoi hyder y bydd y rhaglen gefnogaeth yn cael ei chyflawni. Yn ei profiad ni, mae rhaglen Bro Morgannwg wedi bod yn llwyddiannus yn clustnodi cyfran helaeth o'i chyllideb, a dylid rhoi clod i dîm Cymunedau Gwledig Creadigol am reoli'r proffil gwario ac am yrru llawer o'r gweithgareddau sydd wedi arwain at ddyrannu'r cyllid yng nghyfnod cynnar y rhaglen. Mae'r profiad sydd ganddynt o raglenni blaenorol, a'r ffaith fod strwythur yn ei lle pan gychwynnodd y rhaglen, wedi cyfrannu tuag at y canlyniad llwyddiannus.

Disgwylir gwariant tuag at ddiwedd cyfnod y rhaglen – mae prosiectau'n cymryd amser i ddatblygu ac mae'r gwariant yn aml yn dod tuag at ddiwedd y gweithgareddau.

Mae'n glir fod gwariant y prosiect wedi'i rheoli'n fanwl, trwy weithgareddau'r Rheolwr Monitro, yn gweithio gyda thîm Cymunedau Gwledig Creadigol ac arweinydd y tîm.

## 5.2 Cynnydd gyda Dangosyddion Allbwn

Mae gofyn o bob Grŵp Gweithredu Lleol adrodd ar ddangosyddion allbwn, y cytunwyd arnynt wrth gymeradwyo'r SDLl. Mae dangosyddion allbwn y SDLl yn cael eu nodi yn ôl thema Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yn y tabl rhesymeg ymyrraeth ac yn cael eu crynhoi yn y tabl isod. Mae disgwyl i bob prosiect gyfrannu tuag at y dangosyddion hyn[21].

[21] *Mae'r dangosyddion yn ofynnol gan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru ac mae'r diffiniadau a'r rhifau cod yn cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru*

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r dangosyddion sy'n dargedau ar gyfer SDLl Bro Morgannwg a'r cynnydd[22] a adroddwyd yn eu herbyn hyd yma (diwedd Mawrth 19). Mae tîm Cymunedau Gwledig Cymunedol yn cyflwyno cofnod cronnus o'r targedau, ymrwymiadau a llwyddiannau yng nghyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Lleol. Mae hyn yn hysbysu'r Grŵp am gynnydd a llwyddiannau yn erbyn dangosyddion y rhaglen.

| Dangosydd | Targed | Cyflawnwyd hyd yma | % o'r targed |
|---|---|---|---|
| Nifer yr astudiaethau dichonolrwydd | 13 | 9 | 69.2% |
| Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd | 6 | 7 | 116.7% |
| Nifer y gweithgareddau peilot a gynhaliwyd/cefnogwyd | 25 | 45 | 180.0% |
| Nifer y canolfannau cymunedol | 1 | 1 | 100% |
| Nifer y camau dosbarthu gwybodaeth/hyrwyddo a/neu weithgareddau marchnata i godi ymwybyddiaeth am y SDLl a'i brosiectau | 38 | 296 | 779.0% |
| Nifer y rhanddeiliaid y cysylltwyd â hwy (trwy rwydweithio, gwaith bywiocau neu ymgynghori) | 91 | 330 | 362.6% |
| Nifer y cyfranwyr a gefnogwyd (pobl yn mynychu digwyddiadau gwybodaeth a sesiynau ymwybyddiaeth) | 450 | 1,250 | 277.8% |

Mae'r tabl yn dangos fod y rhaglen wedi cyflawni y tu hwnt i'r targedau yn erbyn rhai o'r dangosyddion perfformiad (DP), gan adlewyrchu ffocws ei weithgaredd. Un dangosydd sydd ar ôl – nifer yr astudiaethau dichonolrwydd – i'w gynyddu cyn cwrdd â'r holl dargedau gwreiddiol. Gellir gweld hyn fel llwyddiant. Mae'r rhaglen yn amlwg wedi bod yn llwyddiannus yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid a chyfranogwyr prosiectau, ac wedi gyrru llawer o weithgareddau trwy brosiectau peilot. Mae maint y weithgaredd – a pha mor bell mae'n ymestyn – wedi bod yn llwyddiannus yng nghyd-destun y targedau gwreiddiol hynny.

Serch hynny, gallai fod yn ddefnyddiol i ystyried beth mae'r dangosyddion yn ei ddangos. Ein barn ni yw fod y DP yn fesur o weithgaredd prosiect (allai fod yn amcan ar eu cyfer), yn hytrach nag adlewyrchu canlyniad/effaith y weithgaredd. Mae angen eu dehongli yn y cyd-destun hwnnw.

Wedi adolygu sawl cynnig/cais am brosiect fel rhan o'r gwerthusiad, nid yw wastad yn glir fod canlyniad/allbwn prosiect yn cael ei ddisgrifio'n glir. Mae rhai yn eu hamlinellu, ac eraill heb wneud hynny'n fanwl. Yn hynny o beth, ar gyfer gweddill y rhaglen, efallai y byddai'n ddefnyddiol i gynigion newydd amlinellu'r canlyniadau/targedau allbwn arfaethedig, a'r rhagdybiaethau maent yn seiliedig arnynt, yn gliriach. O ystyried maint y prosiectau, nid oes angen i hyn fod yn helaeth, ond byddai nifer fach o ganlyniadau mesuradwy yn ddefnyddiol.

## 5.3 Casgliadau

Mae ein casgliadau yn y tabl canlynol yn seiliedig ar y dull cyflawni cyfredol y SDL yn y Fro wledig. Mae ein hasesiad o gynnydd wedi'i gyflwyno'n defnyddio dull 'goleuadau traffig'.

---

[22] *Gwybodaeth fel yr adroddwyd gan Gymunedau Gwledig Creadigol. Nid yw profi'r wybodaeth wedi bod yn rhan o'r gwerthuiad gan and ydym yn cynnal awdit fel y cyfryw. Search hynny, mae cofnodion DP Cymunedau Gwledig Creadigol yn rhestru'r dystiolaeth allbwn ar eu cyfer.*



| | |
|---|---|
| Dyraniadau'r Rhaglen | Mae'r rhaglen yn amlwg wedi bod yn llwyddiannus yn dyrannu cyfran helaeth o'r gyllideb sydd ar gael. Dylid gweld hyn fel llwyddiant. Gyda blwyddyn ar ôl ar gyfer cyflawni'r rhaglen mae llawer o hyder y bydd y gyllideb wedi'i dyrannu a'i gwario'n llawn – yn enwedig dyrannu ar gyfer gwariant ar brosiectau. Serch hynny, mae risg y bydd y tanwariant ar y gyllideb yn parhau i newid wrth i danwariant prosiectau ddod yn ôl i gyllideb y rhaglen. Teimlwn ei bod yn parhau'n bwysig i fonitro'r berthynas rhwng costau gweithredu staff Cymunedau Gwledig Creadigol a chostau prosiectau er mwyn cadw llygad ar gynnydd gyda gwariant a chlustnodi cyllid. Tra'r ydym yn cydnabod fod y model cyflawni wedi'i dderbyn a'i gytuno ar ddechrau'r prosiect, teimlwn hefyd fod hyn yn bwysig o ran canfyddiad o'r tu allan. |
| Gwariant y Rhaglen | Mae risg yn parhau na fydd gwariant yn cwrdd â lefel y cyllid a ddyrannwyd. Mae hyn wedi digwydd trwy'r rhaglen. Bydd yn parhau'n bwysig i Gymunedau Gwledig Creadigol ddeall yr hyder sydd gan brosiectau yn gwario yn erbyn eu dyraniad – mae hyn wedi cymryd llawer o amser ac ymdrech gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn deall y statws/tebygolrwydd. |
| Dangosyddion y Rhaglen | O ran targedau allbwn, mae'n glir fod y rhaglen eisoes cyflawni y tu hwnt i'r targedau ar bob un o'r dangosyddion bron. Mae hyder y bydd holl dargedau'r DP wedi'u cyflawni erbyn diwedd y rhaglen. Serch hynny, teimlwn ei bod yn berthnasol i gwestiynau beth mae'r dangosyddion yn ei ddangos o ran deall effaith y rhaglen. Wrth gydnabod fod ffyrdd eraill o ddeall yr effaith – megis gwerthuso prosiectau unigol a'r ymarfer hwn ar lefel rhaglen – efallai y byddai wedi bod yn ddefnyddiol i gasglu gwybodaeth bellach y tu hwnt i'r Dangosyddion Perfformiad. |

**Gwych** – Hyder mawr iawn y bydd yn cwrdd ag amcanion y rhaglen

**Boddhaol** – Hyder da y bydd yn cwrdd ag amcanion y rhaglen

**Gwael** – hyder prin y bydd yn cwrdd ag amcanion y rhaglen

Fel yn Adran pedwar, mae'r adran hon wedi'i strwythuro o amgylch y cwestiynau fel maent wedi'u diffinio yn y briff gwerthuso ac sy'n cael eu hymestyn yn bellach yn y fframwaith gwerthuso.

### 6.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd y Corff Gweinyddol yn gweithredu a rheoli LEADER, yn cynnwys cynnal gweithgaredd cydweithio

Fel y nodwyd eisoes, y corff gweinyddol ac atebol ar gyfer cyflawni'r rhaglen LEADER yr Cyngor Bro Morgannwg. Serch hynny, mae'r cyngor i bob pwrpas wedi dirprwyo'r rhaglen (er yn cadw rheolaeth a gorolwg manwl) i dîm Cymunedau Gwledig Creadigol. Fel gweithwyr y Cyngor, mae perfformiad Cymunedau Gwledig Creadigol a chyflawniad y rhaglen yn cael ei reoli trwy'r Reolwr Gweithredol - Adfywio. Mae aelod portffolio'r Cabinet dros Addysg ac Adfywio hefyd â gorolwg dros reolaeth a chyflawniad y rhaglen. Mae aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn cynnig gorolwg a chyfeiriad pellach.

Mae tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth ir Grŵp Gweithredu Lleol a'r is-grwpiau. Mae'n rhoi diweddariad ar gynnydd yng nghyfarfodydd y Grŵp (trwy adroddiad Cynnydd Prosiectau a diweddariad llafar), ynghyd â diweddariad ar sefyllfa ariannol y rhaglen.

Yn ein barn ni, mae'r rhaglen wedi cael ei rheoli a'i chyflwyno'n effeithiol. Mae'r dadansoddiad o wariant y prosiect a gweithgaredd yn erbyn proffil y rhaglen, ynghyd â llwyddiant yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad, yn dangos y dylai gyflawni'r amcanion gweithredol. Wrth ymgynghori â rhanddeiliaid ac arweinyddion y prosiectau, mae proffesiynoldeb, egni ac arbenigedd tîm Cymunedau Gwledig Creadigol wedi'i grybwyll yn rheolaidd. Mae ganddo enw da ac yn cael ei ystyrid yn ased i'r Fro wledig. Fel tîm ac fel unigolion, maent wedi cyflwyno'r rhaglen mewn modd proffesiynol, yn cynnwys pob rôl, yn cynnwys y Swyddogion Adfywio Gwledig sy'n gweithio â'r gymuned, yn ogystal â swyddogaethau cefnogi'r rhaglen.

Ein barn hefyd – sy'n cael ei chadarnhau gan farn mwyafrif y rhanddeiliaid rydym wedi siarad â hwy – yw bod budd i'r rhaglen gan fod tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn gweithredu hyd braich oddi wrth weithgareddau craidd y Cyngor. Mae cael swyddogaeth datblygu cymunedol wedi ymwreiddio yn y gymuned mae'n ei chefnogi, yn ein barn ni, wedi cyfrannu at lwyddiant y rhaglen. Credir ei bod yn haws mynd at y tîm. Ond hefyd, mae'r rhaglen yn amlwg wedi manteisio o gael cefnogaeth ac ymrwymiad sylweddol gan Gyngor Bro Morgannwg, o ran ymrwymiad ariannol a chefnogaeth wleidyddol a gan swyddogion. Mae'n llawer o ffyrdd, mae'r model cyflawni'n cynnig y gorau o ddau fyd. Mae'r ddelwedd fod Cymunedau Gwledig Creadigol yn gweithredu'n gymharol annibynnol wedi bod yn fanteisiol o ran cynnwys y gymuned, tra bo'r cyswllt a'r gefnogaeth gan y Cyngor yn cynnig cefnogaeth a chysylltiadau pwysig. Mae tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn gallu cysylltu â chydweithwyr yn y Cyngor yn gynnar ar faterion fel prif-ffrydio yn y dyfodol a chyswllt â mentrau eraill.

Yn ein barn ni, mae cael Cadeirydd i'r Grŵp Gweithredu Lleol o'r sector gwirfoddol yn cynnig manteision. Mewn ardaloedd LEADER eraill, mae Grwpiau Gweithredu Lleol yn cael eu cadeirio gan gynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol, sydd wedi golygu ei bod yn anoddach ymgysylltu â'r gymuned leol.

Efallai ei bod yn werth nodi, serch hynny, fod barn wedi'i mynegi fod y berthynas hon yn newid dros amser. Roedd rhai yn teimlo fod tîm Cymunedau Gwledig Creadigol i weld yn cael cysylltiad agosach â'r Cyngor dros amser, a'u bod i weld yn colli'r elfen ddi-duedd yn sgil hynny. Gallai hynny fod yn ganlyniad angenrheidiol o angen y Cyngor i reoli a chyfeirio'r rhaglen, neu'n adlewyrchu'r cyfyngiadau ar ei adnoddau ei hun. Teimlwn ei bod yn bwysig amlinellu hyn o ran sut mae'r gymuned yn gweld y rhaglen wrth symud ymlaen.



Mae sylw arall hefyd i'w wneud. Trwy'r ymgynghoriad ag aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol ar gyfer y gwerthusiad hwn, gwelwyd fod rhwystredigaeth gydag agweddau o sut roedd y Grŵp Gweithredu Lleol yn gallu dylanwadu ar y rhaglen, yn arbennig y gymuned mae'r aelodau yn ei chynrychioli. Roedd nifer o aelodau'r Grŵp yn teimlo nad yw'n grŵp/fforwm mor effeithiol ag ydoedd mewn rhaglenni blaenorol. Mae pum rheswm am hyn:

1. Mae gan nifer o aelodau'r Grŵp Gweithredu lleol rwystredigaeth am y cyfyngiadau ar y rhaglen gyfredol o ran gallu'r rhaglen i roi cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau a mudiadau. Roedd llawer yn teimlo fod cyfyngiad negyddol ar effaith y rhaglen. Roedd nifer o'r aelodau o'r farn fod y rhaglen gyfredol yn dda iawn am gynnal gweithgareddau peilot/dichonolrwydd, ond nad oedd bob amser yn glir beth oedd yn digwydd wedyn o ganlyniad i'r gweithgareddau hynny (gweled sylw isod am adborth).
2. Roedd diffyg eglurder i rai o aelodau'r Grŵp am rai o amcanion rhaglen LEADER Bro Morgannwg a sut maent yn cael eu cyflawni. Roedd rhai yn teimlo nad oedd y rhaglen wedi'i hesbonio'n glir. Mae hyn yn annisgwyl mewn ffordd – gan fod llawer wedi bod ynghlwm â'r rhaglen ers nifer o flynyddoedd. Serch hynny, cafodd hyn ei fynegi gan nifer o aelodau, a'i adlewyrchu yma.
3. Mae strwythur wedi'i sefydlu sy'n rhoi pwyslais mawr ar wahanol is-grwpiau i gyfeirio gweithgareddau yn erbyn y thema berthnasol, gwerthuso ac argymell prosiectau i gael eu cymeradwyo. Tra'r ydym yn teimlo fod y strwythur hon yn effeithiol, mae rhai o aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi cwestiynu rôl prif fwrdd y Grŵp. Mae rhai o'r aelodau yn teimlo fod y cyfleoedd i gynnig sylwadau ar brosiectau sy'n cael eu cynnig i'w cymeradwyo gan yr is-grwpiau wedi bod yn brin. Hefyd, roedd enghreifftiau lle'r oedd yr is-grwpiau wedi treulio amser yn ystyried prosiect cyn argymell ei chymeradwyo, a bod hynny'n cael ei drafod yn fanwl eto yng nghyfarfod y prif Grŵp Gweithredu Lleol. Drwyddi draw, ymddengys fod diffyg eglurder a thensiwn rhwng y prif Grŵp Gweithredu Lleol a rôl/cyfrifoldebau'r is-grwpiau. Yn wir, mae rôl/cyfrifoldebau'r prif Grŵp Gweithredu Lleol a'r is-grwpiau wedi newid ar gais Llywodraeth Cymru. Yn rhaglen 2011-2013 sefydlwyd 'paneli grantiau' y rhaglen i gynnwys aelodau'r Bartneriaeth/Grŵp Gweithredu Lleol yn ôl diddordeb ac arbenigedd. Roedd penderfyniadau'r panel grant yn derfynol ac nid oedd cyfle i drafod hynny'n bellach yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth/Grŵp Gweithredu Lleol. Yn y rhaglen gyfredol, roedd Llywodraeth Cymru'n glir ei bod am i'r Grŵp Gweithredu Lleol gael y penderfyniad terfynol – gyda'r is-grwpiau'n cynnig argymhellion. Mae holl aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn derbyn cynigion llawn y prosiectau cyn cyfarfodydd y Grŵp, ac yn cael eu gwahodd i'w trafod yn y

cyfarfod. Gall y Grŵp gytuno ag argymhellion yr is-grwpiau neu, mewn rhai achosion, wrthod yr argymhellion. Nid yw'n gwbl glir pam fod rhai o aelodau'r Grŵp Gweithredu lleol wedi teimlo na allant gynnig sylwadau neu ddylanwadu ar benderfyniadau trwy strwythur y rhaglen gyfredol.

Ar ôl gweld cyfarfod o'r Grŵp Gweithredu Lleol, ein barn yw fod rhywfaint o 'densiwn' yn parhau. Gall is-grŵp fod wedi cymryd cryn amser i ddatblygu ac ystyried cynnig am brosiect a gwneud argymhellion, ond i deilyngdod y prosiect gael ei drafod eto yng nghyfarfod y Grŵp Gweithredu Lleol. Yn ein barn ni, mae hyn yn rhannol (ond ddim yn gyfan gwbl) gwestiynu rôl yr is-grwpiau ac os yw'n broses effeithlon o ran amser aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol. Efallai y byddai'n briodol i'r is-grwpiau barhau i gael rôl yn datblygu syniadau ar gyfer prosiectau, a hyd yn oed gwneud argymhellion, ond bod yr amser a roddir i asesu ac argymell yn cael ei gyfyngu – gan y bydd proses graffu ar y prosiectau yn parhau ym mhrif gyfarfod y Grŵp Gweithredu Lleol.

Ar fater cysylltiedig, roedd rhai o'r farn fod trafodaeth ddwy ffordd – rhwng y Grŵp Gweithredu Lleol a thîm Cymunedau Gwledig Creadigol – wedi cael ei chyfyngu o bryd i'w gilydd. Teimlwyd bod eu barn heb ei hystyried yn llawn – er yn cydnabod nad yw hynny bod amser yn bosibl gan fod y Grŵp Gweithredu Lleol yn cynnwys 22 unigolyn gyda barn wahanol.

4. Roedd rhai o aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol o'r farn fod Bwrdd y Grŵp wedi'i ddominyddu gan gynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, er gwaetha'r ffaith fod y Bwrdd wedi'i rhannu'n fras yn dri thraean rhwng sectorau gwirfoddol/cyhoeddus/busnes. Ein barn annibynnol yw fod gan y Grŵp Gweithredu Lleol strwythur dda, gyda chymysgedd dda o gynrychiolaeth o'r gwahanol sectorau. Eto, rydym yn tynnu sylw at y farn a fynegwyd.
5. Mae cwestiwn am ba mor effeithiol yw'r adborth i'r Grŵp Gweithredu Lleol am ganlyniadau'r gwahanol brosiectau mae rhaglen LEADER wedi'i chefnogi. Tra bydd adborth yn cael ei roi ar ddiwedd gweithgaredd prosiect, e.e. pan fydd prosiect peilot, pecyn cymorth neu astudiaeth dichonolrwydd wedi'i gwblhau, nid ydynt o anghenraid yn cael gwybod os/sut mae'r adnoddau'n cael eu defnyddio. Er enghraifft, roedd diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol fod y pecyn cymorth a ddatblygwyd fel rhan o'r prosiect Teithiau Ysgol yn cael ei ddefnyddio gan nifer o fudiadau yn yr ardal, a'u bod wedi croesawu teithiau ysgol o rai ardaloedd llai breintiedig. Drwyddi draw, roedd gwybodaeth mwy cyfyngedig am ganlyniadau tymor hir gweithgareddau a ariannwyd. Tra mae adborth ysgrifenedig yn ddefnyddiol, wrth i raglen dynnu tua'r terfyn gallai fod yn ddefnyddiol i fwrdd y Grŵp Gweithredu Lleol dderbyn diweddariadau/cyflwyniadau llafar gan brosiectau a gefnogwyd i esbonio 'beth sy'n digwydd nesaf'. Yn ddelfrydol, dylai hyn ddod gan fudiadau allanol a gefnogir, yn hytrach na gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol. Gallai fod yn fanteisiol hefyd i ganolbwyntio mwy ar gasglu tystiolaeth effaith gan brosiectau dros weddill cyfnod y rhaglen.

Canlyniad y ffactorau hyn drwyddi draw (er ddim o anghenraid yn unffurf a chyson) yw fod diddordeb aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi lleihau yn ystod y rhaglen gyfredol. Mae presenoldeb yng nghyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Leol yn wirfoddol, ac mae aelodau'r Grŵp am wneud gwahaniaeth yn y Fro wledig, ond maent yn teimlo na allant ddylanwadu ar bethau fel y byddent yn dymuno. Ein dealltwriaeth yw fod hyn hefyd yn digwydd mewn ardaloedd LEADER eraill.

Teimlwn fod hwn yn ganfyddiad pwysig yn y gwerthusiad canol blwyddyn hwn a dylai fo yn ystyriaeth bwysig i Lywodraeth Cymru. Mae'r Grwpiau Gweithredu Lleol (a'r partneriaethau gwledig ehangach) wedi gweithredu fel grwpiau cynrychioladol pwysig yng nghefn gwlad Cymru, gan helpu i gyflwyno rhaglen LEADER dros nifer o gyfnodau, gan helpu i ganfod atebion lleol i broblemau lleol.

Canlyniad i'r cyfyngiadau ar y rhaglen gyfredol – gan gydnabod mai dim ond un o'r ffactorau a amlinellwyd uchod ydyw – yw fod y Grŵp Gweithredu Lleol ei hun (yn unigolion ac ar y cyd) yn teimlo ei fod yn llai effeithiol gan ddylanwadu llai ar eu cymunedau lleol.

### 6.2 Pa mor ddigonol yw'r drefn casglu data ar gyfer gwerthusiad terfynol cadarn

Mae rhai prosiectau sydd wedi'u cwblhau wedi llunio gwerthusiad lefel prosiect neu adroddiad cau prosiect. Rydym wedi'u hadolygu, ac roeddynt yn ddefnyddiol ar gyfer y gwerthusiad canol tymor hwn. Rydym yn cydnabod fod angen i unrhyw weithgaredd gwerthuso fod yn gymesur â faint o gymorth dderbyniodd y prosiect. Ni fyddai'n briodol i bob prosiect gynnal ymarfer tebyg, ond dylai pob un lunio adroddiad cau sy'n amlinellu'r prif ganfyddiadau/canlyniadau.

Mae tîm Cymunedau Gwledig Creadigol hefyd yn casglu tystiolaeth yn erbyn Dangosyddion y Rhaglen. Fel y nodir mewn rhag arall o'r adroddiad, mae disgwyl i'r rhaglen gyflawni ei holl dargedau erbyn iddi gau. Serch hynny, teimlwn nad oes gwerth mawr i'r DP wrth ystyried effaith y rhaglen – nid ydynt yn dangos cymaint â hynny. Rydym yn cydnabod mai Llywodraeth Cymru sydd wedi'u gosod, a'u bod yn creu sail yr adroddiadau chwarterol. Nid ydynt o anghenraid wedi bod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer y gwerthusiad canol tymor hwn, ac nid ydym yn disgwyl y byddant ychwaith ar gyfer y gwerthusiad terfynol. Felly, efallai y byddai wedi bod yn ddefnyddiol i'r rhaglen fod wedi datblygu nifer fechan o fertigau ychwanegol (y tu hwnt o DP Llywodraeth Cymru) i roi darlun pellach o ganlyniadau ac effeithiau'r prosiectau.

Rydym yn cydnabod y gallai fod yn rhy hwyr i'w datblygu a'u hintegreiddio i weddill y rhaglen, gan fod y rhan fwyaf o'r gyllideb wedi'i dyrannu. Serch hynny, gallai fod yn ystyriaeth ar gyfer unrhyw raglenni LEADER yn y dyfodol neu unrhyw estyniad. Er enghraifft, cynnwys mesuriadau ychwanegol ar ffurf 'profion peilot', neu os caiff prosiectau pellach eu hariannu yng ngweddill y rhaglen, cynnwys nifer cyfyngedig o fesuriadau ychwanegol i'w hintegreiddio, i weld os gall y prosiectau lunio tystiolaeth mwy defnyddiol.




### 6.3 Cyfathrebu: ymwybyddiaeth am LEADER ymhlith aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol, darparwyr gweithgareddau, pobl leol a chymunedau

Mae cyllideb farchnata a chyhoeddusrwydd fach ar gael i dîm Cymunedau Gwledig Creadigol roi cyhoeddusrwydd i'r rhaglen a'r gweithgareddau. Rydym wedi gweld enghreifftiau o'r deunyddiau marchnata, ac maent o ansawdd da. Mae tîm Cymunedau Gwledig Creadigol hefyd yn cyfathrebu'n rheolaidd trwy e-bost ac yn gweinyddu cyfrifon Facebook (https://www.facebook.com/CreativeRuralCommunities?fref=ts) a Twitter (https://twitter.com/ruralvale). Mae'r rhain yn cael eu defnyddio i hysbysebu digwyddiadau sy'n cael eu hariannu gan y rhaglen.

Mae'n ddefnyddiol nodi fod y duedd gyffredinol (dros gyfnod y rhaglen) wedi symud o farchnata print traddodiadol i ddefnydd ehangach o'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r modd mae Cymunedau Gwledig Creadigol wedi mabwysiadu defnydd cyfryngau cymdeithasol wedi dilyn y tueddiadau ehangach hynny. Mae'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn cynnig ffordd fwy cost effeithiol o farchnata torfol. Mae tua 1,800 o bobl yn dilyn y dudalen Facebook a 1,400 yn dilyn y ffrwd Twitter. Mae hyn yn dangos fod y gweithgareddau yn weladwy. Mae newyddion/digwyddiadau Cymunedau Gwledig Creadigol hefyd yn cysylltu â thudalennau Facebook ar draws y Fro wledig, gyda nifer o gymunedau unigol â'u cyfrifon eu hunain.

Mae gennym ddau sylw pwysig yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o'r rhaglen LEADER:

- Wrth ymgynghori ag arweinyddion prosiect mewn mudiadau allanol – ar gyfer y rhaglen gyfredol a rhaglenni blaenorol – mae'n glir fod nifer yn cysylltu'r gefnogaeth a gawsant yn llawer mwy gyda Chymunedau Gwledig Creadigol na rhaglen LEADER fel y cyfryw. Tra'r ydym yn cydnabod y gallai cymorth ariannol mewn rhaglenni blaenorol fod wedi dod o gyllid gwahanol gan yr RDP e.e. Axis 3, roedd diffyg ymwybyddiaeth/dealltwriaeth gyffredinol ynghylch o ble roedd y cymorth ariannol yn dod. Tra gallai hyn adlewyrchu'r ffaith fod tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn wyneb effeithiol i'r rhaglen yn y gymuned ehangach, mae'n codi cwestiynau am ba mor weladwy yw rhaglen LEADER ei hun. Mae hyn yn bwysig am resymau canfyddiad, h.y. diffyg dealltwriaeth eang o sut mae rhaglenni Ewropeaidd wedi cefnogi'r gymuned[23].
- Fel y nodwyd eisoes, gwelwyd nad yw holl aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn hollol glir am nodau ac amcanion y rhaglen LEADER ei hun. Yn arbennig beth yn union sy'n caniatáu o dan y rhaglen gyfredol a beth sydd wedi'i gyflawni. Mae hyn yn ganfyddiad sy'n peri syndod. O ran yr olaf, teimlwn na ddylid anwybyddu pwysigrwydd adborth i ddarlunio hyn, a dylai hynny fod yn ffocws ar gyfer gweddill y rhaglen. Bydd hyn yn bwysig, ac yn galluogi aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol i ddathlu llwyddiant y rhaglen o fewn eu cymunedau.

### 6.4 Cydweithio: i ba raddau mae'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi ymgysylltu â cymunedau a phobl leol

Fel mae Dangosyddion y Rhaglen yn dangos, ymddengys fod y rhaglen yn parhau i fod yn llwyddiannus yn hyrwyddo gweithgareddau sy'n cysylltu â'r gymuned ehangach. Mae rhai gweithgareddau wedi bod yn hynod ddefnyddiol yn hyn o beth, e.e. mapio cymunedol.

Cynhaliodd tîm Cymunedau Gwledig Creadigol hefyd raglen ymgysylltu helaeth ar ddechrau'r rhaglen, gan amlinellu'r cymorth oedd ar gael a'r 'galwadau agored'. Creodd hyn ran ganolog o'r gweithgareddau Bywiocau. Cysylltodd tîm Cymunedau Gwledig Creadigol a thua 30 digwyddiad oedd yn cael eu cynnal yn yr ardal i hyrwyddo'r rhaglen. Roedd ymdrech a gweithgaredd sylweddol i gynyddu cyswllt â'r gymuned. Datblygwyd gweithgareddau hyrwyddo ac allgymorth eraill gan Gymunedau Gwledig Creadigol yn cynnwys datblygu fideo hyrwyddo, yn annog grwpiau cymunedol o gynnig eu syniadau[24].

Mae llawer o'r rhanddeiliaid y buom yn siarad â hwy hefyd o'r farn fod ymgysylltu yn y rhaglen gyfredol yn fwy cyfyngedig na mewn rhaglenni blaenorol, er nad oherwydd ddiffyg ymdrech/gweithgaredd. Mae'r prif gyfyngiadau a nodwyd o fewn y gymuned fusnes – eto yn sgil yr hyn a ganiateir o dan y canllawiau. Mae absenolrwydd cymorth ariannol uniongyrchol wedi golygu fod diffyg ysgogiad i fusnesau ymwneud â'r rhaglen.

---

[23] *Mae'n bwysig nodi fod gan yr holl ddeunyddiau logos LEADER a'r UE – gan gwrdd â gofynion ariannu*

[24] *https://youtu.be/dExiomKGQrA*

Roedd barn y rhanddeiliaid y buom yn siarad â hwy yn amrywio – yn cynnwys aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol – ynghylch a fu'r rhaglen yn gwbl effeithiol yn ymgysylltu â chymunedau ac unigolion difreintiedig. Mae'n bwysig pwysleisio fod y Fro wledig yn ardal gymharol gyfoethog, ac nad oes cymunedau difreintiedig amlwg ar raddfa lle gellid canolbwyntio gweithgaredd. Mae cyrraedd cymunedau penodol yn anoddach yn sgil hynny. Roedd y prosiect mapio cymunedol yn ymgais glir i adnabod cryfderau a gwendidau o fewn cymunedau penodol, a'r gefnogaeth roeddynt ei angen i'w helpu i ymdrin â rhai materion. Roedd hwn yn gam cyntaf da, ac yn boblogaidd gyda'r rhai y buom yn siarad â hwy. Mae os oes gan raglen LEADER ddigon o allu/ adnoddau i ymdrin â'r anghenion a nodwyd yn gwestiwn arall.

Mae cwestiwn yn parhau ynghylch os mai cyfran fach o aelodau'r gymuned sy'n ymgysylltu â'r prosiect – ac wastad wedi gwneud hynny – a'r rheiny'n tueddu i fod yn bobl rhagweithiol, dosbarth canol ac yn gwybod am waith rhaglenni ariannu. Er ymdrechion helaeth gan y Grŵp Gweithredu Lleol/Cymunedau Gwledig Creadigol i gyrraedd at aelodau mwy difreintiedig yn y gymuned, bu'n anodd ymgysylltu'n llawn â hwy. Mae'r rhaglen wedi'i chreu i ymateb i alw gan y gymuned. Er bod ymdrech sylweddol wedi bob ar weithgaredd allgymorth a hyrwyddo, os nad yw rhai unigolion/cymunedau ymwneud â'r rhaglen, gallai fod yn werth ystyried dulliau gwahanol ac ychwanegol.

### 6.5 Casgliadau

Mae ein casgliadau eto yn defnyddio dull 'goleuadau traffig'

| | |
|---|---|
| Gweithredu a rheoli rhaglen LEADER gan y Corff Gweinyddu | Mae'r Cyngor yn gweithredu fel y Corff Gweinyddu trwy dîm Cymunedau Gwledig Creadigol. Mae gan y tîm enw da ac mae'r rhaglen yn cael ei rheoli a'i chyflwyno i safon proffesiynol uchel. Mae manteision hefyd o fod hyd braich oddi wrth y Cyngor ac yn cael ei weld yn agosach at y gymuned. Mae cadeirydd o'r sector gwirfoddol i'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi helpu yn hynny o beth. Ond nodwyd ambell farn fod yr elfen hyd braich yn mynd yn raddol a bod Cymunedau Gwledig creadigol yn colli'r ddelwedd ddi-duedd o'r herwydd. Mae pryder/rhwystredigaeth hefyd ymhlith aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol am anallu i ddylanwadu ar y rhaglen/diffyg dealltwriaeth lawn o gyflawniad. Mae angen mynd i'r afael â'r pryderon hyn. |
| Pa mor ddigonol yw'r drefn casglu data | Mae data'n cael ei gasglu ar gyfer Dangosyddion Perfformiad rhaglen LEADER ac mae hyn yn gadarn. Serch hynny' nid yw'r DP yn ddefnyddiol yn dangos effaith. Byddai gwybodaeth bellach am ganlyniadau ac effaith yn werthfawr a dylid eu cynnwys os oes rhaglenni LEADER yn y dyfodol. Dylid hefyd ystyried datblygu mesuriadau 'profi peilot' ar gyfer prosiectau newydd yn y rhaglen gyfredol. |
| Cyfathrebu | Mae tîm Cymunedau Gwledig Creadigol wedi gwneud gwaith cyhoeddusrwydd a marchnata rheolaidd o ansawdd da. Serch hynny, mae pobl yn dueddol o feddwl fod y gefnogaeth gan Gymunedau Gwledig Creadigol yn hytrach na gan raglen LEADER fel y cyfryw. Mae angen mwy o waith i godi ymwybyddiaeth. Mae angen mwy o waith hefyd i ddatblygu ymwybyddiaeth y Grŵp Gweithredu Lleol am y rhaglen a'r hyn sydd wedi'i gyflawni. |
| Cydweithio | Bu ymdrechion helaeth gan y Grŵp Gweithredu Lleol/Cymunedau Gwledig Creadigol i gwrdd holl rannau'r gymuned, yn cynnwys yr ardaloedd mwy difreintiedig. Cydnabyddir fod hyn yn anodd iawn, a bod Cymunedau Gwledig Creadigol wedi ymgysylltu'n eang.<br><br>Y prif ran o'r gymuned sydd ar goll o'r rhaglen gyfredol yw'r gymuned fusnes – nid oes bai ar Gymunedau Gwledig Creadigol, ond mae'n adlewyrchu sut mae'r rhaglen LEADER gyfredol wedi'i threfnu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r lliw oren yn adlewyrchiad o'r ffaith honno. |

**Gwych** – Hyder mawr iawn y bydd yn cwrdd ag amcanion y rhaglen

**Boddhaol** – Hyder da y bydd yn cwrdd ag amcanion y rhaglen

**Gwael** – hyder prin y bydd yn cwrdd ag amcanion y rhaglen

Fel yn Adrannau pedwar a chwech, mae'r adran hon wedi'i strwythuro o amgylch y cwestiynau fel maent wedi'u diffinio yn y briff gwerthuso ac sy'n cael eu hymestyn yn bellach yn y fframwaith gwerthuso.

## 7.1 Rhwydweithio mewn gwahanol grwpiau a sectorau

Mae'n glir o'r gwaith ymgynghori fod lefel sylweddol o rwydweithio rhwng gwahanol grwpiau yn y Fro wledig, a bod Cymunedau Gwledig Creadigol yn gwbl ganolog i sefydlu'r cysylltiadau. Rydym wedi siarad â nifer o brosiectau lle'r oedd Cymunedau Gwledig Creadigol wedi awgrymu a sefydlu perthynas rhwng gwahanol grwpiau, ac lle mae'r cyswllt wedi bod yn fuddiol. Mae rhai i'r rhain wedi'u hamlinellu yn adran 3.2.

Mae'r rhwydwaith gysylltiadau sydd gan Gymunedau Gwledig Creadigol - yn unigol ac ar y cyd fel tîm – yn un o'u prif asedau. Ymddengys fod gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol gryfder arbennig mewn cyfeirio a chyflwyno. Mae ganddynt gysylltiadau da iawn o fewn y gymuned, ac yn gweithredu'n effeithiol fel canolbwynt ar gyfer gwneud cysylltiadau. Mae'r tîm hefyd yn awyddus i sefydlu rhwydweithiau, gan gydnabod fod potensial i sicrhau effaith gadarnhaol gryfach wrth gysylltu gweithgareddau â'i gilydd. Mae hyn yn bwysig yng nghyd-destun cyllideb lai a chymharol gyfyngedig. Trwy greu cysylltiadau a chytgord rhwng prosiectau, mae gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol rôl bwysig yn cael mwy allan o'r cyllid.

## 7.2 Y graddau mae dull LEADER wedi'i gyflwyno a'r gwerth ychwanegol yn sgil hynny

Fel y gwelir yn yr adroddiad hwn a'r Adroddiad Gwaddol sy'n cyd-fynd â'r gwerthusiad canol tymor, mae tystiolaeth fod rhaglen LEADER wedi bod o fudd i'r Fro wledig. Mae nifer o enghreifftiau lle mae ychydig o gefnogaeth LEADER wedi symbylu effaith eang a chynaliadwy. Mae'r dull yn y Fro wledig wedi bod yn seiliedig ar saith egwyddor rhaglen LEADER, gyda'r Grŵp Gweithredu Lleol ac adnodd cefnogi Cymunedau Gwledig Creadigol yn helpu i yrru dull sy'n cael ei arwain gan y gymuned o'r gwaelod i fyny.

Ein barn ni yw fod yr egwyddorion yn haws i'w cyflawni trwy'r rhaglenni blaenorol, gan eu bod yn caniatáu mwy o weithgaredd yn cael ei arwain gan alw. Gallai busnesau a mudiadau o fewn y gymuned gael eu syniadau a'u cynlluniau prosiect eu hunain, a rhoi cais i'r rhaglen am gymorth. Roedd gweithgaredd yn cael ei gyrru gan y Grŵp Gweithredu Lleol a Chymunedau Gwledig Creadigol eu hunain yn cyd-fynd â hynny.



Cafwyd newid i'r berthynas yn y rhaglen gyfredol. Fel yr esboniwyd eisoes, mae llawer mwy o bwyslais ar dîm Cymunedau Gwledig Creadigol i yrru gweithgaredd, gan weithredu ar syniadau a chysyniadau gan y gymuned a darparu'r adnodd a'r symbyliad i wneud i bethau ddigwydd. Tra bo tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn dal i gael eu gweld yn agos at y gymuned, gellid dadlau nad yw'r 'ysgogiad' bellach yn dod yn uniongyrchol o'r gymuned ei hun. Fel yr esboniwyd eisoes, y syniad a fabwysiadwyd yw fod Cymunedau Gwledig Creadigol yn gweithredu ar 'hedyn' syniad gan y gymuned, ac yn meithrin y syniad gwreiddiol trwy ei amser a'i brofiad. Y farn ymhlith mwyafrif y rhanddeiliaid (yn cynnwys aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol) yw fod y dull gwaelod i fyny wedi'i wanhau gan fod llai o fusnesau yn ymwneud â'r rhaglen. Mae'r ddadl honno wedi'i thrafod yn helaeth mewn adrannau blaenorol.

Drwyddi draw serch hynny, nid oes rheswm i amau fod y model LEADER – sydd i'w weld trwy'r saith egwyddor – wedi'i gyflwyno yn y Fro wledig. Fel rhaglen sydd wedi bodoli ers dros ddegawd, mae'n sicr wedi ychwanegu gwerth at brif-ffrydio gweithgaredd datblygu cymunedol (fel a ddarperir gan trwy'r Cyngor neu ffrydiau cyllid eraill). Er ein bod yn dadlau fod y dull gwaelod i fyny wedi gwanhau rywfaint yn y cynllun cyfredol, mae'n dal i gynrychioli'r rhaglen amlycaf o ddatblygiad wedi'i arwain gan y gymuned yn y Fro wledig.

## 7.3 Sicrhau canlyniadau ac effaith ehangach yn sgil gweithgareddau

Mewn sawl ffordd, mae'n rhy gynnar i weld beth fydd effaith y gweithgareddau a ariennir o dan y rhaglen gyfredol. Mae llawer o brosiectau yn dal ar waith ac yn parhau i gael eu datblygu. Trwy'r gwaith ymgynghori gydag arweinyddion y prosiectau, gwelwyd fod hyder y byddai prosiectau'n cael effaith gadarnhaol mewn rhai achosion, a mwy o ansicrwydd mewn achosion eraill. Yn sicr, mae enghreifftiau lle na fydd gweithgaredd yn parhau y tu hwnt i'r peilot a'r cyfnod dichonolrwydd. Ni ddylid gweld hyn fel methiant – mae'n ganlyniad positif ynddo'i hun – gan y byddai wedi arbed llawer o amser yn gweithio ar weithgaredd anymarferol. Mae'r gweithgareddau peilot/dichonolrwydd hefyd wedi rhoi gwersi pwysig. Yn aml, mae'r hyn a ddysgwyd wedi'i fwydo i mewn i weithgareddau eraill, er budd prosiectau eraill. Mae profiad a chysondeb tîm Cymunedau Gwledig Creadigol wedi bod yn bwysig yn hynny o beth – fel ffynhonnell o wybodaeth trefnu.

Mae enghreifftiau eraill – fel y prosiect cadwyn gyflenwi arlwyo ysgolion, Gŵyl Ffilmiau'r Fro, Rhwydwaith Crefftau ac ati, lle gallai'r effaith fod yn sylweddol. Serch hynny, disgwylir i hynny adeiladu'n raddol dros amser. Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chasglu fel rhan o'r adroddiad gwaddol yn awgrymu fod 'effaith' yn dueddol o gael ei ddatblygu yn raddol. Prin yw'r enghreifftiau lle bydd gweithgareddau a gefnogir yn rhai sy'n trawsnewid sefyllfaoedd dros nos. Nid yw cefnogaeth LEADER yn cael ei gynnig ar y raddfa honno.

## 7.4 Y graddau y mae gweithgareddau'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi'u hintegreiddio â rhaglenni eraill

Mae lefel yr integreiddio gyda rhaglenni cyllido eraill wedi newid yn y blynyddoedd diweddar. Yn y rhaglen flaenorol, roedd rhaglen LEADER (fel y cafodd ei chyflwyno trwy Axis 4 rhaglen Cynllun Datblygu Gwledig Cymru) berthynas llawer agosach gydag Axis 3 rhaglen Cynllun Datblygu Gwledig Cymru. Yn y rhaglen honno, roedd cysyniadau prosiectau, gweithgareddau peilot a rhywfaint o'r gwaith cyflawni cynnar yn cael ei gefnogi trwy LEADER. Os oed rhaglen angen mwy o gymorth cyfalaf, yna roedd Axis 3 yn cynnig cyfle posibl.

Fel corff gwneud penderfyniadau lleol, roedd gan y Grŵp Gweithredu Lleol rôl bwysig yn creu'r cysylltiadau hynny a defnyddio'r ddwy ffrwd ariannu i gefnogi'r fenter oedd yn datblygu. Yn hynny o beth, roedd llawer o integreiddio ac, yn allweddol, roedd y Grŵp Gweithredu Lleol yn ganolog i'r ddwy ffrwd ariannu. Gellid gwneud penderfyniadau ar ariannu yn lleol, gan ddilyn y model gwaelod i fyny y trafodwyd eisoes.

Nid yw'r Cynllun Datblygu Gwledig Cymru cyfredol wedi gweithredu yn yr un ffordd. Mae'r cyllid oedd ar gael trwy Axis 3 bellach yn cael ei weinyddu mewn ffordd wahanol yng Nghynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, gan gael ei weinyddu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn bennaf. Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig yw'r dull darparu ar gyfer un mesur (M07) sy'n cael ei gweinyddu'n ganolog. Rhaid i fudiadau sydd am wneud cais i'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig wneud hynny'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Tra bo Grwpiau Gweithredu Lleol i fod i gael rôl ymgynghorol ar y ceisiadau hynny sydd ar gyfer eu hardal hwy, ac i ardystio'r ceisiadau, roedd aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol y buom ni'n siarad â hwy o'r farn mai proses mewn enw yn unig ydoedd, ac nad oedd ganddynt unrhyw ddylanwad go iawn. Mae teimlad o golli rheolaeth a dylanwad o fewn yr ardal. Fel y trafodwyd eisoes, un canlyniad yw dirywiad yn niddordeb aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol.

Serch hynny, rydym hefyd yn ymwybodol fod y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig wedi cefnogi cynnydd rhai gweithgareddau peilot a ddechreuodd trwy LEADER, er enghraifft fe ariannol offer chwarae yn Sain Tathan, yn dilyn sefydlu grŵp 'The Saints' yn Sain Tathan a ddechreuodd trwy waith mapio cymunedol ond oedd hefyd yn rhan o brosiect peilot Ysbryd Cymunedol.

Gwelir y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig fel proses fwy biwrocrataidd ac araf na dull blaenorol Axis 3, ac felly ddim bob amser yn ddeniadol i fudiadau ymgeisio. Y canlyniad yw fod nifer o'r rhanddeiliaid yn teimlo fod llwybr cynnydd pwysig wedi'i golli.

Nid yw'n glir i rai i ble ddylai prosiectau sydd wedi cael eu hariannu trwy'r rhaglen gyfredol fynd i gael rhagor o gymorth ariannol os oes angen. Mae hyn yn codi cwestiwn am gynaliadwyedd tymor hir rhai o'r gweithgareddau peilot a dichonolrwydd a ariannwyd. Nid oes llwybr amlwg i'r cysyniadau hyn gael eu datblygu trwy gyllid Cynllun Datblygu Gwledig Cymru oni bai am y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig, sydd â meini prawf penodol iawn. Mae rhai mudiadau'n cynnal gweithgareddau sydd ddim er elw (cynnig budd cymdeithasol) ac felly ddim o anghenraid yn berthnasol i gael cyllid preifat (er y gallai rhai mathau o fenthyciadau cymar i gymar, cyllido torfol a banciau buddsoddi cymdeithasol gynnig cyfleoedd). Fel ym mhobman arall, mae straen ar adnoddau Cyngor y Fro a thra mae rhai rhaglenni cyllido ar gael, maent yn weddol gyfyngedig o ran eu maint a'u cwmpas. Mae rhai ffynonellau cyllid cyhoeddus eraill ar gael (e.e. fel y nodir yn adran bolisi'r adran newid cymdeithasol-economaidd) ond o ystyried y straen cyffredinol ar gyllid cyhoeddus, efallai y byddant yn gyfyngedig.

Drwyddi draw, mae'r rhaglen LEADER gyfredol i weld wedi'i hintegreiddio lai gyda rhaglenni cyllido eraill a gallai ddioddef o ganlyniad o ran ei effaith tymor hir. Teimlwn ei bod yn bwysig i gynllunio ar gyfer y gwaddol yng ngweddill y cyfnod LEADER cyfredol, ac rydym yn cynnig awgrymiadau yn Adran 8.



Serch hynny, fel y gwelir yn Adran 3.2, mae'r rhaglen wedi datblygu i gyd-fynd yn glod a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae nifer o'r gweithgareddau a gefnogir trwy'r rhaglen yn cyd-fynd yn dda gydag egwyddorion y darn pwysig hwnnw o ddeddfwriaeth Gymreig.

## 7.5 Casgliadau

Cyflwynir ein casgliadau eto ar ffurf tabl yn defnyddio dull 'goleuadau traffig'.

| | |
|---|---|
| Rhwydweithio | Gwelir fod llawer o rwydweithio wedi digwydd ac mae Cymunedau Gwledig Creadigol yn allweddol yn gwneud i hyn ddigwydd. Mae eu rhwydwaith cysylltiadau yn ased allweddol ar gyfer y Fro wledig a'r Grŵp Gweithredu Lleol. |
| Cyflawni dull LEADER ac ychwanegu gwerth | Mae egwyddorion Leader yn cael eu cyflawni trwy'r rhaglen LEADER. Serch hynny, gan fod Cymunedau Gwledig Creadigol bellach rhoi llawer o'r symbyliad ar gyfer gweithgaredd y rhaglen, rydym yn bryderus fod y rhaglen wedi dod yn fwy dibynnol ar sgiliau a gallu tîm Cymunedau Gwledig Creadigol. Er bod y syniadau a'r cysyniadau yn dal i ddod o'r gymuned ei hun yn bennaf, nid yw'r rhaglen gyfredol mor amlwg yn cael eu gyrru gan y gymuned. Mae tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn gweithio'n galed yn annog dod â syniadau ymlaen. Mae hyn yn gymaint o gwestiwn o allu'r gymuned â dim. Mae'r awydd i wella amodau yn y Fro wledig yn parhau. Serch hynny, ein barn yw ei bod yn parhau yn rhaglen leol werthfawr. Caiff ei hystyried yn fwy hygyrch na rhai o'r rhaglenni cyllid eraill sy'n cael eu rheoli'n ganolog. |
| Sicrhau canlyniadau ac effaith | Mae tystiolaeth dda y bydd nifer o brosiectau yn sicrhau effaith bositif. Ni fydd rhai prosiectau'n datblygu y tu hwnt i'r peilot. Serch hynny, fel mae ein gwaith ar waddol yn dangos, gall effaith bositif gymryd amser hir i ddatblygu, a gwneud hynny'n raddol. Fel y gwelir yn Adran 5, mae cyfle i roi mwy o ymdrech i weld canlyniadau ac effeithiau'r prosiectau a sefydlu ffyrdd o'u hadnabod a'u mesur |
| Integreiddio â rhaglenni eraill | Mae gan LEADER/Grŵp Gweithredu Lleol lai o gyswllt lleol â chyllid arall Cynllun Datblygu Gwledig Cymru nag oedd yn arfer bod. Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig yw'r prif gyfle bellach, ond yn ymarferol, bach iawn o ddylanwad sydd gan y Grŵp Gweithredu Lleol dros hyn. Mae'r tîm Cymunedau Gwledig Creadigol wedi cefnogi integreiddio a dilyniant i raglenni eraill lle bo hyn yn bosibl. Drwyddi draw, ein barn yw fod LEADER wedi integreiddio llai â rhaglenni eraill bellach – ac mae'r cyllid mewn rhaglenni eraill yn lleihau hefyd. Nid yw'r lliw oren yn adlewyrchiad o waith cyflawni ond yn fwy o adlewyrchiad ar y tirlun polisi ehangach y mae'r rhaglen yn gweithio oddi mewn iddo. Serch hynny, fel y trafodir yn Adran 5, mae'n cryfhau'r angen i ystyried mwy ar gynaliadwyedd tymor hir y prosiectau peilot. |

**Gwych** – Hyder mawr iawn y bydd yn cwrdd ag amcanion y rhaglen

**Boddhaol** – Hyder da y bydd yn cwrdd ag amcanion y rhaglen

**Gwael** – hyder prin y bydd yn cwrdd ag amcanion y rhaglen

Mae'r adran olaf hon yn tynnu ein hargymhellion yn ymwneud â phrif gwestiynau gwerthuso'r Briff at ei gilydd, yn sgil ateb y cwestiynau mwy manwl yng nghorff y gwerthusiad.

### 8.1 Gwerthusiad o gynnydd yn gweithredu'r SDLl

Ein casgliad drwyddi draw yw fod y Grŵp Gweithredu Lleol a Chymunedau Gwledig Creadigol wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyfrannu at gyflawni amcanion y SDLl.

Mae ein hargymhellion ar gyfer datblygu cyflawniad y SDLl am weddill cyfnod y Rhaglen ar y sail bresennol i'w gweld yn y tabl canlynol.

| | Argymhellion |
|---|---|
| | **Effeithiolrwydd** |
| 1 | I'r Grŵp Gweithredu Lleol/tîm Cymunedau Gwledig Creadigol fapio'r prosiectau a ariannir gan LEADER (a'u dyraniad cyllid) a chyflawniad ehangach yn erbyn amcanion y SDLl, i ddeall rhychwant llawn y gweithgareddau sy'n cyfrannu at y SDLl. Tra'r ydym yn cydnabod fod hyn wedi'i wneud i raddau helaeth trwy'r Tabl Rhesymeg Ymyrraeth, gallai fod yn ddefnyddiol i ymestyn y dadansoddiad i gynnwys y dyraniadau cyllid a gweithgaredd sydd ddim yn rhan o LEADER. |
| 2 | Ystyried sut y gallai gweithgareddau a ariennir gael eu gwella/datblygu ymhellach er mwyn cyfrannu at agenda Dinas Caerdydd, neu o leiaf fod yn glir am sut mae'r agenda'n cael ei gwthio mewn mannau eraill (gan ddilyn ymlaen o argymhelliad 1). |
| 3 | Ystyried datblygu nifer fach o fetrigau lefel prosiect cyson ychwanegol (ar sail peilot) i gael gwell syniad o effaith prosiectau. Er bod rhai adroddiadau cau prosiectau wedi cynnwys mesuriadau o fudd, maent wedi tueddu i fod yn benodol ar gyfer y prosiect a ddim yn hawdd felly i grynhoi budd ar draws prosiectau. Gallai fod yn defnyddiol i Gymunedau Gwledig Creadigol asesu os gallai nifer fach o fetrigau cyson gael eu defnyddio ar gyfer pob prosiect, er mwyn crynhoi'r wybodaeth a'i ychwanegu at y dangosyddion perfformiad sy'n bodoli. Nid ydym am i hyn gymryd llawer o amser, ond gallai asesiad dichonolrwydd cyflym fod yn ddefnyddiol. |
| 4 | Cynnal a chryfhau'r ffocws ar gefnogi cynaliadwyedd/prif-ffrydio prosiectau sy'n cael eu hariannu lle bo hynny'n briodol |
| | **Effeithlonrwydd** |
| 1 | Ailedrych ar y berthynas, a rolau a chyfrifoldebau y prif Grŵp Gweithredu Lleol a'i is-grwpiau. Y brif nod yw gwella effeithlonrwydd rhwng y ddau grŵp, allai olygu newid ychydig ar bwyslais trafodaethau'r is-grwpiau. |
| 2 | Sicrhau gwell dull rhoi adborth yng nghyfarfodydd Bwrdd y Grŵp Gweithredu Leol i helpu aelodau i ddeall effaith prosiectau ar lawr gwlad yn well. Yn ddelfrydol, ni ddylai hyn gael ei wneud gan dîm Cymunedau Gwledig Creadigol, ond gyda mudiadau allanol yn dod i gyfarfodydd i drafod yr effaith. |
| 3 | Mwy o bwyslais ar ddathlu llwyddiant y rhaglen. Rhoi mwy o rôl eiriolwyr i aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol. Gallai hyn helpu i gynyddu'r cyswllt â rhannau anodd i'w cyrraedd yng nghymuned y Fro wledig. |
| | **Effaith** |
| 1 | I'r Grŵp Gweithredu Lleol gynyddu'r ffocws ymhellach ar greu gallu o fewn y gymuned ehangach. Iddo ystyried – gyda'r Cyngor – sut i wella sut mae mudiadau yn helpu eu hunain a lleihau dibyniaeth ar dîm Cymunedau Gwledig Creadigol. |

## Atodiad 1

| Caffael a Chomisiynu | Clustnodwyd gan y Grŵp Gweithredu Lleol (£) | Gwariant (£) | Statws |
|---|---|---|---|
| Astudiaeth Dichonolrwydd Cymunedau'r Arfordir | 19,357.50 | 19,357.50 | Gorffen |
| Mapio Cymunedol | 9,806.50 | 9,828.08 | Gorffen |
| Digwyddiadau 'Pop-yp' | 24,967.40 | 24,967.40 | Gorffen |
| Ymweliadau Ieuenctid ac Ysgolion | 15,600.00 | 12,738.89 | Parhau |
| Incwm o Argraffu | 25,000.00 | 12,756.14 | Parhau |
| Croesawu Cŵn | 34,940.61 | 34,940.61 | Gorffen |
| Dathlu Illtud Sant | 1,228.25 | 1,228.25 | Gorffen |
| Blwyddyn….. | 801.67 | 801.67 | Gorffen |
| Rhwydwaith Grefft | 2,000.00 | 467.92 | Parhau |
| Ysbryd Cymunedol | 851.53 | 851.53 | Gorffen |
| Rhieni a Phlant | 7,006.57 | 7,006.58 | Gorffen |
| Adeiladau Gwledig Gwag | 13,125.00 | 9,902.50 | Gorffen |
| Digwyddiadau Bwyd y Fro | 1,230.00 | 1,230.00 | Gorffen |
| Her Ysgolion Gwyrdd | 2,188.00 | 2,188.00 | Gorffen |
| Cegin Fasnachol | 10,000.00 | 642.55 | Parhau |
| Digwyddiad Ynni Gwyrdd Cymunedol | 2,720.96 | 2,720.96 | Gorffen |
| Astudiaeth Dichonolrwydd Da Byw | 30,000.00 | 30,000.00 | Gorffen |
| Ymchwil Busnes i Fusnes | 798.16 | 798.16 | Gorffen |
| Cymdeithas Hanes y Bont-faen – Gwneud yn fawr o'r archifau | 1,000.00 | 0 | Gorffen * |
| Agora | 2,000.00 | 0 | Parhau |
| Gŵyl y Môr | 31,700.00 | 16,609.00 | Parhau |
| Gŵyl Ffilmiau'r Fro | 15,000.00 | 0 | Parhau |
| Seiclo yn y Fro | 1,000.00 | 0 | Parhau |
| Lleoliadau Cymunedol Digidol | 21,450.00 | 2,071.00 | Parhau |
| Gŵyl Grefftau | 15,178.00 | 1,500.00 | Parhau |
| Arlwyo Ysgolion y Fro | 15,000.00 | 10,600.00 | Parhau |
| Sgiliau Digidol y Fro | 15,970.56 | 578.50 | Parhau |

* Dim gwariant, ond mae'r prosiect wedi'i chwblhau gan wirfoddolwyr

| Grant | Grant RDP (£) | Gwariant (£) | Statws |
|---|---|---|---|
| Tyddynwyr Morgannwg | 764.00 | 764.00 | Gorffen |
| Gwneud synnwyr o lesiant | 6,018.61 | 6,018.61 | Gorffen |
| Creu Hafoc gydag Iechyd | 13,673.20 | 13,673.20 | Gorffen |
| Prosiect Ffawydden Twt | 10,550.00 | 10,550.00 | Parhau |
| Cynulliad Bwyd y Bont-faen | 5,274.00 | 5,274.00 | Parhau |
| Cynllun Benthyca'r Fro | 5,828.96 | 5,828.96 | Parhau |
| Clwb Bechgyn a Merched | 27,900.00 | 27,900.00 | Parhau |
| Ysbryd Cymunedol | 4,757.81 | 4,757.81 | Parhau |